

Gweithlu mwy diogel, busnes gwell

Canllawiau Iechyd a Diogelwch i fusnesau bach



Cynhyrchwyd gan swyddogion y *Devon Health & Safety Sub Group*
mewn partneriaeth â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Eiddo deallusol y *Devon Chief Officers Health and Safety Sub Group* yw'r pecyn hwn ac ni ddylid ei atgynhychu yn rhannol neu'n gyfan heb eu caniatâd hwy.

Croeso i Weithlu Mwy Diogel, Busnes Gwell - Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn

<p>Ydy'r pecyn yn addas i mi?</p>	<p>Mae'r pecyn hwn ar gyfer busnesau bychan a chanolig megis bwytai, caffis, têt-awê, manwerthwyr, e.e. siopau annibynnol a siopau papur newydd, sefydliadau gwely a brecwast, gwestai bychan, tafarndai, cartrefi gofal bychan a swyddfeydd.</p> <p>Datblygwyd y pecyn gan Awdurdodau Lleol Dyfnaint, sydd wedi gweithio gyda busnesau i greu pecyn ymarferol a hawdd i'w ddefnyddio.</p>
<p>Sut mae'r pecyn hwn yn fy helpu i gydymffurfio â'r gyfraith?</p>	<p>Dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, rhaid i chi fedru dangos eich bod wedi addasu pob agwedd o'ch busnes er mwyn i chi fedru rhoi cynllun yn ei le i reoli'r risgiau. Rhaid i chi asesu'r risg i staff, yn ogystal â'r risg i unrhyw berson arall a allai ddod i gysylltiad â'ch gweithredoedd, gan gynnwys contractwyr a'r cyhoedd.</p> <p>Mae'r pecyn hwn wedi'i ddylunio i'ch helpu i ganolbwyntio ar y risgiau sydd wirioneddol o bwys yn eich gweithle – y rhai sydd â'r potensial i achosi niwed go iawn. Nid yw'r gyfraith yn disgwyl i chi gael gwared ar bob risg, ond mae gofyniad arnoch i warchod pobl cyhyd ag sy'n 'rhesymol yn ymarferol'.</p>
<p>Pwy ddylai fod yn gyfrifol am y pecyn?</p>	<p>Y person sy'n gyfrifol am redeg y busnes o ddydd-i-ddydd yw'r person gorau i weithio drwy'r pecyn. Mae cynnwys staff eraill yn syniad da hefyd, er mwyn helpu i'r pecyn weithio yn eich busnes.</p>

Sut mae'r pecyn yn gweithio?

Mae trefn y pecyn yn seiliedig ar y Pecyn Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell. Nod y pecyn yw helpu busnesau i gydymffurfio â'r gofyn i asesu risg, ond hefyd i gynorthwyo gyda'r dasg o roi hyfforddiant i staff.

Mae'r pecyn wedi'i rannu yn bum rhan:

- Gweithdrefnau / Polisi
- Amddiffyn
- Arfer Dda
- Cofnodion
- Gofal Ychwanegol

Mae'r pecyn yn cynnwys nifer o daflenni i chi weithio drwyddynt a'u cwblhau. Mae'r rhain yn cael eu galw'n 'dulliau diogel'.

Drwy gwblhau'r pecyn, byddwch yn edrych ar beth allai achosi niwed i bobl yn eich gweithle a sicrhau eich bod wedi rhoi digon o gamau yn eu lle i atal niwed. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth eich bod wedi asesu risg ar gyfer eich busnes.

Sut i ddefnyddio'r dulliau diogel

Mae'r rhan gweithdrefnau yn rhoi manylion ynghylch y prif feysydd yr ydych yn gyfrifol am eu rheoli.

Mae pob 'Dull Diogel' yn tynnu sylw at berygl neu ofyniad penodol

Mae'r golfn 'Pwynt Diogelwch' yn tynnu sylw at y pethau sy'n bwysig i gadw pawb yn ddiogel yn y gweithle ac yn nodi manylion y gofynion cyfreithiol.

Mae'r golfn 'Pam?' yn dweud wrthy ch chi pam fod y pwynt diogelwch yn bwysig.

Mewn rhai manau, dim ond rhoi tic mewn blwch fydd ei angen, ond mewn manau eraill, bydd angen i chi ysgrifennu rhywfaint.

Dylech ddefnyddio'r golfn 'Sut mae gwneud hyn?' i nodi beth ydych chi'n ei wneud yn eich busnes chi.

Accident reporting

Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations 1995 (RIDDOR).

Safety point	Why?	How do you do this?
<p>Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations 1995 (RIDDOR) places a legal duty on:</p> <ul style="list-style-type: none"> employers; self-employed people; people in control of premises. <p>To report work-related deaths, major injuries or over-seven-day injuries, work-related diseases, and dangerous occurrences such as a fire or explosion.</p> <p>Further information can be found at www.hse.gov.uk/riddor</p>	<p>If an employee is off work due to a work-related illness then you must check if it needs to be reported under RIDDOR.</p> <p>If a member of the public has an accident in your workplace and is taken to hospital then you must also report this under RIDDOR.</p> <p>All incidents can be reported online at www.hse.gov.uk/riddor</p> <p>Major and fatal injuries can also be reported by telephone. You must notify the Incident Contact Centre: Tel: 0845 3009923 Monday to Friday 8.30am to 5pm</p>	<p>Do you know when you should report certain conditions? Yes <input type="checkbox"/> No <input type="checkbox"/></p> <p>If not please refer to www.hse.gov.uk/riddor</p> <p>Where do you record incidents, accidents and illnesses?</p>
<p>For all accidents that result in injuries to persons, you should carry out an investigation and prepare a brief written report of the findings and any action taken.</p>	<p>It is important to record as much detail as you can while it is still fresh in your mind. If an enforcement officer investigates the accident or the injured person decides to sue you for damages you will have a comprehensive report for your defence. The investigation should focus on the person injured, what they were doing at the time of the accident and where the accident occurred. Positive issues should also be noted in the report, e.g., 'the floor was in good condition and a handrail was provided'. These reports should be restricted to facts and not opinions. The reports should be signed and dated.</p>	<p>How do you investigate accidents?</p>

Bydd angen asesiadau risg ychwanegol neu benodol ar gyfer rhai o'r pethau y byddwch yn eu gwneud. Mae ffurflenni 'dull diogel' gwag wedi cael eu cynnwys er mwyn i chi gwblhau eich asesiadau risg eich hunain.

Er enghraifft, os bydd newid yn eich busnes, e.e. os oes gwaith adeiladu'n cael eu wneud neu os ydych chi'n cyflogi person ifanc, yna bydd angen i chi gwblhau asesiad risg penodol a chadw hwn gyda'ch cofnodion.

Risk Assessment

This sheet should be used to detail any activities you carry out that are not covered as part of this pack. Please duplicate this sheet where necessary.

Safe Method: (Name of Activity)

Safety point	Why?	How do you do this?

Teitl y 'Dull Diogel' fydd enw'r perygl, e.e. 'Adnewyddu'r Gegin', neu 'Cyflogi person ifanc fel porthor'

Y pwyntiau diogelwch yw'r rhestr o fesurau rheoli yr ydych angen eu rhoi yn eu lle i gadw pawb yn ddiogel, e.e. sut fyddwch chi'n gwahanu'r gwaith adeiladu oddi wrth y gweithgareddau dydd-i-ddydd. Gallai hyn gynnwys yr hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen a pha offer fydd yn cael ei ddefnyddio.

O dan y golofn 'Pam?', fe nodir pam fod y pwynt diogelwch yn bwysig.

Eglurwch sut fyddwch chi'n sicrhau eich bod yn rhoi'r mesurau rheoli yma yn eu lle yn eich busnes yn yr adran 'Sut ydych chi'n gwneud hyn?'

Hefyd, efallai y bydd taflen gyflwyno gyffredinol yn cael ei chynnwys gyda'r dull diogel (er enghraifft, sut i ddefnyddio darn penodol o offer/peiriant).

Cychwyn arni	
Beth ddylwn i ei wneud nesaf?	<p>Gweithiwch drwy'r pecyn un adran ar y tro a chwblhewch bob rhan sy'n berthnasol i'ch busnes.</p> <p>Pan fyddwch wedi gweithio drwy'r rhannau i gyd, gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch staff yn dilyn y mesurau rheoli yr ydych wedi'u nodi, drwy'r amser.</p> <p>Dylech adolygu'r pecyn hwn yn rheolaidd a'i ddiweddarau pan fo angen, e.e. ar ôl damwain, newidiadau mewn ymarferion gwaith neu ar ôl i ddarn newydd o offer gael ei gyflwyno.</p>
Sut fydda i'n elwa o ddefnyddio'r pecyn?	<p>Bydd defnyddio'r pecyn yn eich busnes yn eich helpu i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth • Dangos beth ydych chi'n ei wneud i reoli risgiau • Hyfforddi staff • Gwarchod enw da eich busnes • Gwella eich busnes, e.e. gostwng nifer y damweiniau
Ydw i angen cadw llawer o gofnodion dyddiol?	<p>Nid oes angen i chi gadw llawer o gofnodion. Fodd bynnag, mae angen i chi gadw unrhyw gofnodion mewn lle diogel. Cadwch gofnod o unrhyw ddigwyddiadau yn y log digwyddiadau a nodwch bob amser beth yr ydych chi wedi'i wneud amdanynt. Os mai busnes arlwygo ydych chi, yna efallai y byddwch yn dymuno cofnodi unrhyw broblemau dyddiol yn eich dyddiadur Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell (SFBB).</p> <p>Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r holl ddulliau diogel perthnasol, bydd angen i chi eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, neu pan fydd pethau'n newid.</p>
Lle alla i gael mwy o wybodaeth?	<p>Am fwy o wybodaeth, siaradwch â'ch gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn eich awdurdod lleol neu gyda'ch gwasanaeth tân lleol.</p> <p>Am fanylion cyhoeddiadau Iechyd a Diogelwch ewch draw i: www.hse.gov.uk neu ffoniwch: 0300 790 6787.</p>

Gofynnwch am gyngor os oes gennych chi unrhyw amheuan

I wybod os yw rhywbeth yn gywir neu'n anghywir, rydych angen gwybod beth sy'n iawn yn y lle cyntaf. Felly, mae'n bwysig cael help gan arbenigwyr o dro i dro, e.e. contractwyr trwyddedig i waredu asbestos, peirianwyr cymwys, e.e. trydanwyr/plymwyr.

Gweithdrefnau/Polisi



Amddiffyn



Arferion Da



Cofnodion



Gofal Ychwanegol



Gweithdrefnau/Polisi

- Gofynion Cyfreithiol
- Polisi/Datganiad Iechyd a Diogelwch
- Aseiad Risg
- Hyfforddiant a Goruchwyliaeth
- Adrodd ar ddamweiniau
- Cymorth Cyntaf yn y gwaith
- Aseiad galluedd i weithwyr bregus
- Diogelwch Trydan / Nwy
- Aseiad Risg Tân
- Cyflenwyr a Chontractwyr
- Contractwyr cynnal a chadw / eiddo
- Arfer dda wrth ail-addurno



Gofynion Cyfreithiol

I gydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch cyfredol, dylai eich busnes gwblhau a chynnal a chadw'r dogfennau a ganlyn:

- Asesiadau Risg
- Asesiadau Risg Tân
- Asesiadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- Llyfr Damweiniau
- Cofrestr Asbestos
- Cofnodion Hyfforddiant
- Cofnodion cynnal a chadw ac archwilio, megis adroddiadau archwilio lifftiau
- Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr
- Poster Iechyd a Diogelwch

Drwy gwblhau'r pecyn hwn, byddwch wedi cwrdd â'r gofynion cyfreithiol gofynnol ar gyfer llawer o'r dogfennau yma. Efallai y bydd risgiau ychwanegol yn eich busnes fydd angen eu hasesu ar wahân. Dylid nodi gwybodaeth ar reoli'r risgiau hyn yn yr Adran Gofal Ychwanegol. Sicrhewch bod y pecyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cael ei gadw'n gyfredol, a bod yr holl dystysgrifau ac adroddiadau archwilio yn cael eu cadw mewn lle diogel fel bod modd cael atynt yn rhwydd pan fo angen.

Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch

Os ydych chi'n cyflogi mwy na phump aelod o staff, mae'n ofyn cyfreithiol bod gennych chi Ddatganiad Iechyd a Diogelwch. Mae datganiad polisi iechyd a diogelwch yn nodi sut ydych chi'n rheoli iechyd a diogelwch yn eich gweithle. Mae'n dangos agwedd eich busnes tuag at iechyd a diogelwch a'r camau, y trefniadau a'r systemau sydd gennych yn eu lle i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Os ydych yn cyflogi llai na phump aelod o staff, mae cwblhau Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch yn dal yn arfer dda.

Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974

Dyma Ddatganiad Polisi Iechyd a Diogelwch

Ein datganiad polisi cyffredinol yw:

- Darparu rheolaeth ddigonol o'r risgiau iechyd a diogelwch sy'n codi o'n gweithgareddau gwaith;
- Ymgynghori â'n gweithwyr ar faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch;
- Darparu a chynnal a chadw peiriannau ac offer diogel;
- Sicrhau bod sylweddau yn cael eu trin a'u defnyddio'n ddiogel;
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth i weithwyr;
- Sicrhau bod yr holl weithwyr yn gymwys i wneud eu tasgau, a rhoi hyfforddiant digonol iddynt;
- Atal damweiniau ac achosion o salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith
- Cynnal a chadw amodau gwaith diogel ac iach; ac
- Adolygu a diwygio'r polisi hwn fel bo'r angen ac yn rheolaidd.

Llofnod:
(cyflogwr)

Dyddiad: Dyddiad Adolygu:

Aseiad Risg

Dylid defnyddio'r daflen hon i nodi manylion unrhyw weithgareddau yr ydych yn eu gwneud lle nad ydynt yn cael eu trafod fel rhan o'r pecyn hwn. Gallwch ddefnyddio tudalennau ychwanegol lle bo angen.

Dull Diogel: (Enw'r Gweithgaredd)

Pwynt Diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?

Hyfforddiant a Goruchwyliaeth

Mae'n hanfodol hyfforddi a goruchwyllo eich staff yn effeithiol i sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel yn y gwaith.

Dylech roi hyfforddiant i'ch staff ar yr holl dulliau diogel sy'n berthnasol i'r gwaith y maent yn ei wneud. Mae angen cyflwyno rhai dulliau diogel i bob aelod o staff ar eu diwrnod cyntaf. Hefyd, dylech eu goruchwyllo i sicrhau eu bod yn dilyn y dulliau diogel yn iawn.

Llofnodwch y cofnod hyfforddiant i gadarnhau bod y staff sy'n rhan o'r gweithgaredd gwaith ar y diwrnod hwnnw wedi cael eu goruchwyllo i sicrhau bod eich staff yn dilyn eich dulliau diogel.

Beth i'w wneud	Sut
Unwaith y byddwch wedi gweithio drwyddynt, defnyddiwch y dulliau diogel yn y pecyn hwn i hyfforddi staff. Mae angen i chi fod yn siŵr fod pob aelod o staff yn gwybod beth yw'r dulliau diogel ar gyfer yr holl dasgau y maent yn eu gwneud.	Dangoswch i'r aelod staff beth i'w wneud, cwestiynwch nhw'n ofalus am eu dealltwriaeth ac yna gofynnwch iddynt ddangos i chi er mwyn cadarnhau eu bod yn deall yn iawn.
Sicrhewch eich bod yn gwybod pa hyfforddiant y mae pob aelod o staff wedi'i dderbyn.	Gwnewch nodyn ar gofnod hyfforddi'r staff bob amser y byddwch yn hyfforddi aelod o staff.
Gwylwch yr aelod o staff pan maent yn gwneud tasg fel rhan o'u gwaith.	Gwnewch sylwadau i helpu'r aelod staff wella'r ffordd y mae'n gweithio. Gwobrwywch berfformiad da drwy roi adborth positif pan mae'r aelod staff wedi dilyn y dull diogel yn llwyddiannus. Os nad yw'r dull diogel yn cael ei ddilyn gan yr aelod staff, dywedwch wrthynt lle mae pethau'n mynd o'i le a pham ei bod yn bwysig dilyn y dull diogel.
Pan fo aelod o staff wedi cwblhau tasg, gofynnwch wrthynt sut wnaethant ddilyn y dull, er mwyn i chi weld a ydynt wedi ei wneud yn gywir.	Efallai y byddwch yn dymuno arsylwi staff yn gwneud gweithgareddau risg uchel o bryd i'w gilydd i wneud yn siŵr bod y dulliau diogel yn cael eu dilyn.
Beth i'w wneud os fydd pethau'n mynd o'i le?	Sut i atal hyn rhag digwydd eto?
Os nad yw staff yn dilyn dull diogel yn iawn, yna rhowch hyfforddiant iddynt eto a gwnewch yn siŵr eu bod yn deall pam ei bod yn bwysig dilyn y dull hwn.	Defnyddiwch yr adolygiad bob 4 wythnos yn y dyddiadur i adnabod unrhyw broblemau o ran sut mae staff yn dilyn y dulliau diogel a chynlluniwch eich hyfforddiant i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Cofiwch gynnwys staff newydd.


Adrodd ar Ddamweiniau

Rheoliadau Adrodd ar Ddamweiniau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
<p>Mae'r Rheoliadau Adrodd ar Ddamweiniau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gyflogwyr; • pobl hunan-gyflogedig; • pobl sy'n rheoli'r eiddo; <p>i adrodd ar farwolaethau ac anafiadau mawr sy'n gysylltiedig â'r gwaith neu anafiadau dros saith diwrnod, afiechydon sy'n gysylltiedig â'r gwaith a digwyddiadau peryglus megis tân neu ffrwydrad.</p> <p>Ceir mwy o wybodaeth yn: www.hse.gov.uk/riddor</p>	<p>Os oes gweithiwr i ffwrdd o'r gwaith yn sgil salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith, yna rhaid i chi wirio a oes angen adrodd ar hyn dan RIDDOR.</p> <p>Os oes aelod o'r cyhoedd wedi cael damwain yn eich gweithle ac gorfod mynd i'r ysbyty, yna rhaid i chi adrodd ar hyn dan RIDDOR.</p> <p>Gellir adrodd ar y digwyddiadau ar-lein yn: www.hse.gov.uk/riddor</p> <p>Hefyd, gellir adrodd ar anafiadau mawr ac angheuol dros y ffôn. Rhaid i chi hysbysu'r Ganolfan Gyswilt Digwyddiadau Ffôn: 0845 3009923 Llun i Gwener 8.30am i 5pm</p>	<p>Ydych chi'n gwybod pa bryd ddylech chi adrodd ar gyflyrau penodol? Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/></p> <p>Os 'nac ydw', ewch draw i: www.hse.gov.uk/riddor</p> <p>Ble ydych chi'n cofnodi digwyddiadau, damweiniau a salwch?</p>
<p>Ar gyfer pob damwain sy'n arwain at anaf i berson, dylech gynnal ymchwiliad a pharatoi adroddiad ysgrifenedig cryno o'r canfyddiadau ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd.</p>	<p>Mae'n bwysig cofnodi mewn cymaint o fanylder â phosib tra y mae'n ffres yn eich meddwl. Os bydd swyddog gorfodaeth yn ymchwilio i'r ddamwain neu os bydd y person sydd wedi'i anafu yn penderfynu eich siwio, yna bydd gennych adroddiad cynhwysfawr ar gyfer eich amddiffyniad. Dylai'r ymchwiliad ganolbwyntio ar y person sydd wedi'i anafu, beth oeddynt yn eu wneud pan ddigwyddodd y ddamwain a lle y digwyddodd y ddamwain.</p> <p>Hefyd dylid nodi unrhyw bwyntiau positif yn yr adroddiad, e.e. "roedd y llawr mewn cyflwr da ac roedd canllaw wedi'i ddarparu". Dylai'r adroddiadau hyn gadw at y ffeithiau ac ni ddylent gynnwys unrhyw farn. Dylid llofnodi a dyddio'r adroddiadau hyn.</p>	<p>Sut ydych chi'n ymchwilio i ddamweiniau?</p>

Cymorth Cyntaf yn y gwaith

Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 a'r Cod Ymarfer Cymeradwy cysylltiedig yn nodi lefel y ddarpariaeth cymorth cyntaf yn y gweithle ar gyfer gweithwyr.

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
<p>Rhaid i bob busnes gael person penodedig.</p>	<p>Mae Person Penodedig yn rhywun sy'n gyfrifol am gymryd rheolaeth o argyfwng, h.y. cysylltu â'r gwasanaethau brys a chynnal a chadw'r blwch cymorth cyntaf. Nid ydynt yn gymhorthydd cyntaf. Rhaid i chi sicrhau bod gennych berson penodedig ar gael bob amser. Felly, efallai y bydd angen i chi benodi mwy nag un person.</p>	<p>Nodwch yma pwy yw'r Personau Penodedig yn eich gweithle.</p> <div data-bbox="1034 551 1458 873" style="border: 1px solid black; height: 144px;"></div>
<p>Yn ddibynnol ar fath a maint eich busnes, efallai y bydd angen i chi ddarparu cymhorthydd cyntaf cymwys.</p>	<p>Mae Cymhorthydd Cyntaf yn rhywun sy'n gallu darparu triniaeth addas ar gyfer mân anafiadau ac atal anafiadau rhag mynd yn waeth wrth aros am driniaeth feddygol.</p>	<p>Nodwch yma pwy yw'r Cymorthyddion Cyntaf cymwys yn eich gweithle (nodwch os ydynt wedi bod ar y cwrs cymorth cyntaf brys un diwrnod neu'r cwrs llawn pedwar diwrnod).</p> <div data-bbox="1034 1214 1458 1536" style="border: 1px solid black; height: 144px;"></div>
<p>Rhaid rhoi hyfforddiant digonol i gymorthyddion cyntaf a rhaid darparu hyfforddiant diweddarau iddynt bob tair blynedd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi dyddiadau unrhyw hyfforddiant yn yr adran gwaith papur.</p>	<div data-bbox="517 1294 948 1868" style="text-align: center;">  </div>	<p>Sut ydych chi'n gwneud yn siŵr fod eich holl staff yn gwybod pwy yw'r person penodedig/cymhorthydd cyntaf?</p> <div data-bbox="1040 1706 1465 2107" style="border: 1px solid black; height: 179px;"></div>

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
<p>Bydd bocs addas (lليw gwyrdd gyda chroes wen) mewn lle amlwg. Rhaid i focsys cymorth cyntaf gael eu cadw mewn lleoliadau addas gyda gwybodaeth ar ba gymorthyddion cyntaf/personau penodedig sydd ar ddyletswydd.</p>	<p>Ni ddylid cadw unrhyw foddion nac eli yn y bocs cymorth cyntaf. Y rheswm am hyn yw oherwydd y gall pobl fod ag alergedd i wahanol foddion ac eli ac ni ddylent ond gael eu gweinyddu gan weithwyr meddygol. Os fydd rhywun yn dymuno defnyddio eu moddion eu hunain, yna rhaid iddynt gadw hwn eu hunain.</p> <p>Rhaid cael yr hyn a ganlyn mewn Bocs Cymorth Cyntaf (fel isafswm):-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cerdyn canllaw • 20 plaster (wedi'u lapio'n unigol) o wahanol faint • 2 pad llygaid diheintiedig gydag atodiadau • 6 bandej trionglog wedi'u lapio'n unigol • 6 pin diogelwch • 6 dresin anaf heb feddyginiaeth o faint canolig, 2 fawr a 3 mawr iawn • Plaster gludiog (4.5cm x 2.5cm) • 1 pâr o fenig tafladwy <p>Hefyd, dylid darparu cynhwysydd dŵr diheintiedig sy'n dal o leiaf 300ml lle nad oes dŵr prif gyflenwad ar gael.</p> <p>Noder y gallai'r cynnwys amrywio yn unol ag anghenion y gweithle.</p>	<p>Ble mae eich bocs cymorth cyntaf?</p> <div data-bbox="1034 295 1458 663" style="border: 1px solid black; height: 164px; width: 266px;"></div> <p>Pa mor aml fyddwch chi'n ail-lenwi'r bocs?</p> <div data-bbox="1034 752 1458 1061" style="border: 1px solid black; height: 138px; width: 266px;"></div> <p>Ydych chi'n gwirio bod y cynnwys cywir yn y bocs ac nad oes unrhyw foddion neu eli eraill wedi cael eu hychwanegu?</p> <p>Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/></p>

Asesiad Galluedd i Weithwyr Bregus

Gall gweithwyr bregus gynnwys mamau beichiog, pobl gydag anabledd a phobl ifanc. Gallai'r grwpiau hyn fod mewn mwy o risg na'r bobl eraill yn y gwaith a bod angen i'r cyflogwr roi sylw arbennig iddynt.

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Rhaid i fusnesau gael trefniadau yn eu lle i adnabod a gwarchod gweithwyr bregus.	Mae gennych gyfrifoldebau cyfreithiol ychwanegol i warchod grwpiau bregus.	<p>Os:</p> <ul style="list-style-type: none"> fydd gweithiwr benywaidd yn dweud wrthyich ei bod yn feichiog, wedi rhoi genedigaeth o fewn y chwe mis blaenorol, neu ei bod yn bwydo o'r fron; ydych yn cyflogi rhywun sydd o dan 18 mlwydd oed; fydd gweithiwr yn dweud wrthyich bod rhywbeth wedi effeithio ar eu capasiti i weithio; fydd gweithiwr ar absenoldeb salwch hirdymor; <p>rhaid i chi, neu eich rheolwyr os oes gennych rai, wneud asesiad risg penodol ar gyfer y person hwnnw. Rhaid i chi edrych ar yr hyn y maent yn ei wneud a gwneud yn siŵr eich bod yn rhoi unrhyw fesurau rheoli ychwanegol sydd eu hangen yn eu lle er mwyn rhoi ystyriaeth i'w cyflwr.</p>
<p>Os bydd asesiad risg yn canfod risgiau i famau newydd neu feichiog nad oes modd eu hosgoi, rhaid i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Addasu ei hamodau gwaith neu oriau gweithio os yw hynny'n rhesymol ac yn osgoi'r risgiau, ac os na allwch wneud hynny; Canfod a chynnig gwaith amgen addas iddi hi, ac os na allwch wneud hynny; ei hatal o'r gwaith ar gyflog llawn. 	Mae'r gyfraith yn gofyn i chi roi buddion yr unigolyn yn gyntaf cyn belled â phosib. Mae'n bwysig bod yn hyblyg a chynnwys y gweithiwr wrth wneud penderfyniadau, fel arall gall anghydfod arwain at Dribiwnlysoedd Cyflogaeth ac/neu archwiliadau gan Iechyd yr Amgylchedd.	<p>Pa drefniadau sydd gennych chi ar gyfer mamau beichiog?</p> <div style="border: 1px solid black; height: 80px; width: 100%;"></div> <p>Dywedwch wrth staff yn ystod eu hyfforddiant cyflwyno bod yn rhaid i famau beichiog ddweud wrthyich chi am eu cyflwr.</p> <p>Yna, rhaid i berson cymwys wneud asesiad risg gan edrych ar sefyllfa a thasgau gwaith yr unigolyn er mwyn adnabod unrhyw risgiau iddi hi neu i'r babi.</p>

Pwynt diogelwch Pam?		Sut ydych chi'n gwneud hyn?
<p>Os ydych chi'n cyflogi rhywun o dan 18 oed, rhaid i chi wneud asesiad risg ar eu cyfer CYN iddynt ddechrau gweithio.</p>	<p>Ni fydd gan bobl ifanc dan 18, o reidrwydd, y wybodaeth a'r profiad i ddeall risgiau'r gweithle. Hefyd, efallai y bydd gennych rai dasgau gwaith penodol lle na fydd ganddynt unrhyw brofiad ohonynt o gwbl. Ni allwch ddisgwyl iddynt wybod sut i ymdrin yn ddiogel â'r risgiau y mae aelodau profiadol o staff yn ymdrin â nhw yn ôl yr arfer.</p>	<p>Ydych chi'n cyflogi pobl ifanc dan 18 oed? Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/></p> <p>Os 'ydw': Ni ddylech gyflogi person ifanc i wneud gwaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sydd y tu hwnt i'w galluedd corfforol neu feddyliol; • sy'n golygu eu bod yn dod i gyswllt niweidiol a sylweddau a allai gael effaith gronig ar eu hiechyd; • lle mae risg o ddamweiniau lle y gellir tybio'n rhesymol nad oes modd adnabod nac osgoi hyn yn sgil eu diffyg sylw i ddiogelwch neu ddiffyg profiad neu hyfforddiant; • Lle mae risg i iechyd yn sgil: <ul style="list-style-type: none"> i) Oerfel/gwres eithafol; ii) Sŵn; neu iii) Dirgryniad <p>Pa waith y mae'r rhai dan 18 oed yn ei wneud?</p> <div style="border: 1px solid black; height: 80px; width: 100%;"></div>
<p>Os ydych yn cyflogi rhywun sy'n iau na'r oedran gadael ysgol, maent angen Trwydded Waith gan yr Awdurdod Lleol.</p>	<p>Mae hyn yn sicrhau rheolaeth dros waith y gallai roi plant mewn perygl neu effeithio ar eu haddysg.</p>	<p>Ydych chi'n cyflogi rhywun dan oed gadael ysgol? Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/></p> <p>Ni allwch gyflogi plentyn dan 13 mlwydd oed. Rhaid i blant rhwng 13 oed ac oedran gadael ysgol gael Trwydded Waith drwy ofyn i'w hysgol.</p>
<p>Gallwch gynnig Profiad Gwaith i blant yn y rhan fwyaf o weithleoedd.</p>	<p>Ni ddylai Profiad Gwaith mewn gweithle sydd wedi'i reoli'n dda wneud i blant fod yn agored i risgiau arwyddocaol wrth iddynt gael profiad gwerthfawr o'r amgylchedd gwaith.</p>	<p>Ydy'r cwmni yn cynnig Profiad Gwaith i ysgolion/colegau lleol? Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/></p> <p>Allwch chi gynnig Profiad Gwaith heb ddisgwyl i'r myfyriwr wneud gweithgareddau risg uchel? Gallwn <input type="checkbox"/> Na allwn <input type="checkbox"/></p> <p>Ydy'r person ifanc yn cael ei oruchwylio gan berson cymwys? Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/></p> <p>A fydd unrhyw risgiau yn cael ei lleihau cyn gymaint â'r hyn sy'n rhesymol yn ymarferol? Bydd <input type="checkbox"/> Na fydd <input type="checkbox"/></p> <p>Rhaid i chi ysgrifennu a chadw asesiad risg ar gyfer y myfyriwr.</p>
<p>Rhaid i chi gael trefniadau asesu risg ar gyfer gweithwyr sy'n dioddef o anableddau, straen neu salwch.</p>	<p>Rhaid i chi warchod gweithwyr rhag risgiau ychwanegol sy'n codi o'u cyflwr. Bydd hyn yn eu helpu i ddod yn ôl i'r amgylchedd gwaith cyn gynted â phosib.</p>	<p>A oes gan y cwmni Bolisi Absenoldeb Salwch? Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/></p> <p>A yw'r cwmni'n darparu cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith? Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/></p>

Diogelwch Trydanol

Gall trydan ladd. Gall hyd yn oed siociau sydd ddim yn angheuol achosi anafiadau difrifol a pharhaol. Dylai gosodiadau ac offer trydanol fod yn ddiogel a chael eu cynnal i atal perygl.

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Rhaid i'r gosodiad trydanol sefydlog a'r offer trydanol fod yn ddiogel i weithwyr eu defnyddio.	Gall dod i gyswllt â'r rhannau byw prif foltedd achosi sioc, llosgiadau a lladd. Gall diffygion trydanol achosi tanau. Gall gorlwytho socedi drwy ddefnyddio addaswyr (<i>adaptors</i>) achosi tanau.	Gosod systemau trydanol newydd i safon addas e.e. BS 7671 Darparu offer saff ac addas. Darparu nifer addas o socedi.
Rydym yn defnyddio'r offer trydanol isod:		
Er enghraifft, unrhyw beth sydd â phlwg arno, megis: Sugnydd llwch Tegell Gwresogydd Ffaniau Teledu Llungopiwyrr/cyfrifiaduron Glanhwr stêm/dŵr (<i>pressure washer</i>) Ceblau a phlygiau <i>Extension Leads</i>	Mae gennym	Rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer
Rhaid i staff fod wedi cael hyfforddiant priodol i ddefnyddio'r offer gwaith	Mae angen i staff fod yn ymwybodol o'r perygl posib a rhaid iddynt fedru adnabod diffygion amlwg.	Ydych chi'n hyfforddi eich staff ar sut i ddefnyddio offer trydanol yn ddiogel? Ydym <input type="checkbox"/> Nac ydym <input type="checkbox"/>
Darparu RCD (<i>residual current device</i>) os yw'r offer sy'n cael ei ddefnyddio yn fwy na 230 folt AC (prif foltedd arferol) Defnyddio RCD gyda glanhwr stêm/dŵr (<i>pressure washer</i>)	Mae RCD (<i>residual current device</i>) yn canfod rhai ond nid pob diffyg yn y systemau trydanol ac yn diffodd y cyflenwad yn gyflym. Gan bod yr ardal waith yn wlyb, mae'n debygol y byddai sioc drydanol gan beiriant diffygiol yn beryglus.	A oes RCD yn rhan o'r prif switsfwrdd? Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/> Rhaid defnyddio RCD ar gyfer:

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
<p>Rhaid i bob offer trydanol fod yn addas ar gyfer y gwaith.</p>	<p>Mae cysylltiad cryf rhwng y risg o anaf o drydan a sut mae'n cael ei ddefnyddio e.e. mewn amodau gwlyb, gall offer anaddas ddod yn fyw a gwneud yr ardal o'i amgylch yn fyw hefyd.</p>	<p>Dewiswch offer sy'n addas ar gyfer yr amgylchedd gwaith.</p>
<p>Dylai'r gosodiad sefydlog gael ei archwilio a'i brofi gan berson cymwys, e.e. trydanwr cymwys.</p> <p>Rhaid cynnal a chadw offer trydanol mewn cyflwr da.</p>	<p>Drwy wirio am arwyddion o ddifrod gweledol, gellir rheoli'r mwyafrif o risgiau trydanol.</p> <p>O bryd i'w gilydd, dylid cynnal archwiliad a phrawf ar yr un pryd ar offer <i>earthed</i> a'r ceblau a'r plygiau sydd wedi'u cysylltu i'r offer. Dylid gwneud hyn gan nad oes modd gweld rhai diffygion, megis diffyg <i>earth</i> parhaus (<i>lack of continuous earths</i>).</p> <p>Bydd amllder y gwiriadau yn dibynnu ar y math o offer sy'n cael ei ddefnyddio. Mae offer llaw symudol yn fwy tebygol o gael ei ddifrodi nag offer sefydlog.</p>	<p>Cynhaliwyd archwiliad a phrawf ar y gosodiad sefydlog gan/ ar y dyddiad</p> <div data-bbox="804 611 1461 804" style="border: 1px solid black; height: 86px; width: 100%;"></div> <p>A oes gennych system o archwilio gweledol, a lle mae angen, trefn brofi? Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/></p> <p>Archwiliad gweledol wedi'i gynnal gan:</p> <div data-bbox="804 992 1461 1171" style="border: 1px solid black; height: 80px; width: 100%;"></div> <p>Profi wedi'i wneud gan:</p> <div data-bbox="804 1216 1461 1346" style="border: 1px solid black; height: 58px; width: 100%;"></div> <p>Mae cofnod o ganlyniadau'r archwiliad a'r profi yn cael ei gadw yn:</p> <div data-bbox="804 1435 1461 1608" style="border: 1px solid black; height: 77px; width: 100%;"></div> <p>Rydym yn adrodd ar unrhyw ddifrod neu ddiffyg i:</p> <div data-bbox="804 1659 1461 1848" style="border: 1px solid black; height: 84px; width: 100%;"></div> <p>Rhoddir y gorau i ddefnyddio offer diffygiol ar unwaith a rhoddir label arno yn nodi "Peidiwch â'i ddefnyddio" / "Do not use"</p>

Diogelwch Nwy

Mae nifer o fusnesau yn defnyddio nwy prif gyflenwad neu nwy LPG i goginio neu i wresogi. Rhaid gosod offer a gwasanaethau nwy yn ddiogel a'u cynnal a'u cadw gan y gallant achosi peryglon tân, ffrwydrad a mygu.

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Yn ôl y gyfraith, rhaid i offer a gwasanaethau nwy gael eu gosod a'u trwsio gan osodwr sydd wedi cofrestru â Gas Safe .	Os fydd yr offer neu'r gwasanaeth yn cael ei osod yn anghywir, gallai arllwysu nwy i'r amgylchedd, neu fe allai'r offer ryddhau mygdarth gwenwynig yn y gweithle.	Gwnewch yn siŵr bod eich peiriannydd gwasanaeth nwy wedi cofrestru ar y Gofrestr Gas Safe . Roedd y cynllun cofrestru blaenorol yn cael ei redeg gan CORGI, felly mae systemau a osodwyd ac a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw gan beirianwyr wedi cofrestru â CORGI yn dderbyniol.
Rhaid gosod gosodiadau nwy fel eu bod yn ddiogel i weithwyr eu defnyddio.	Gall gosodiad anghywir arwain at ffrwydrad posib a risgiau tân, neu gynhyrchu mygdarth.	A gafodd yr offer ei osod gan beiriannydd sydd wedi cofrestru ar y Gofrestr Gas Safe neu beiriannydd wedi cofrestru â CORGI? Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Mae gennym yr offer a'r gwasanaethau a ganlyn sy'n cael eu pweru gan nwy prif gyflenwad neu LPG:		
<p>Enghreifftiau</p> <p>Bwyleri a gwresogyddion nwy (gan gynnwys gwresogyddion symudol a thanau fflamau byw);</p> <p>Offer coginio gan gynnwys hobiau, poptai, ffriwyr, barbeciws a <i>blowtorches</i> llaw LPG;</p> <p>Tryciau fforch godi ac offer codi a thrin arall;</p> <p>Offer oergell (megis unedau bwyd symudol);</p> <p>Cyfleusterau gwresogi eraill megis ystafelloedd peiriannau pwl nofio.</p>	Mae gennym	Rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer
Rhaid gwasanaethu a chynnal a chadw offer nwy.	Gall offer sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n wael arwain at risg o dân a ffrwydrad, neu at gynhyrchu nwyon niweidiol megis Carbon Monocsid.	Gwnewch yn siŵr bod yr holl offer yn cael ei archwilio yn rheolaidd yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Argymhellir bod peiriannydd sydd wedi cofrestru â 'Gas Safe' yn gwneud y gwaith. A yw'r offer wedi cael ei wirio gan beiriannydd sydd wedi cofrestru â Gas Safe ? Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Os nad yw offer nwy yn tanio pan mae'r system danio wedi cynnau, neu os yw'r cyflenwad nwy yn parhau ar ôl i'r fflam ddiffodd, bydd gollyngiad nwy ac fe allai hyn arwain at ffrwydrad.	Efallai na fydd dyfais goruchwylio fflam ar offer hŷn, ac fe allwch chi weld y golau peilot.	Gofynnwch i'ch peiriannydd nwy cofrestredig wirio bod dyfeisiau goruchwylio fflam wedi cael eu gosod. Rhowch hyfforddiant i'ch staff ar y dulliau diogel o danio offer os oes offer tanio â llaw yn cael eu darparu.
Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu ynysu'r cyflenwad nwy ar gyfer pob darn o offer.	Bydd angen i chi fedru torri'r cyflenwad i ddarn o offer er mwyn ei lanhau, ei wasanaethu ac mewn argyfwng.	Gwnewch yn siŵr bod y falfiau ynysu â llaw ar gyfer pob darn o offer ar gael yn rhwydd a bod label priodol arnynt.
Pan fo system awyru fecanyddol, dylai 'interlock' rwystro'r cyflenwad nwy pe byddai'r pŵer yn methu, gan wneud i'r system awyru gau i lawr. Mae hyn wedi bod yn ofyniad y Safon Brydeinig ers mis Medi 2001.	Os yw'r system awyru yn stopio gweithio, ni ddylid tynnu'r egsôst allan o'r offer nwy. Gall mygdarth a nwyon gwenwynig gronni, yn enwedig Carbon Monocsid.	A oes system 'interlock' wedi'i gosod? Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/> Os 'nac oes', ydych chi wedi gwneud asesiad risg ar beth sy'n digwydd os yw'r system awyru yn stopio gweithio? Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/> Ydych chi wedi dweud wrth eich staff beth i'w wneud? Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Mae angen i staff gael eu hyfforddi ar ddefnyddio offer yn ddiogel, pa ddiffygion i chwilio amdanynt a beth i'w wneud os ydynt yn nodi problemau.	Gallai staff barhau i weithio gydag offer diffygiol neu fe allai digwyddiadau godi os ydynt yn cael eu defnyddio yn anghywir.	Hyfforddi'r holl staff i ddefnyddio'r offer yn ddiogel ac ar y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â diffygion neu argyfwng. Cofiwch gofnodi'r hyfforddiant hwn yn y daflen cofnodi hyfforddiant.
Mae angen lleoli poteli a thanciau LPG yn briodol, yn ddiogel a'u cynnal a'u cadw fel eu bod yn ddiogel.	Gall offer sydd wedi cael ei osod a'i gynnal a'i gadw yn wael arwain at risg o dampro neu fethiannau eraill sy'n arwain at dân a ffrwydradau.	Dylid gwirio'r ardaloedd lle mae poteli a thanciau yn cael eu storio yn rheolaidd. Gwnewch yn siŵr: <ul style="list-style-type: none"> • nad oes modd tampro â thanciau; • bod cynhwysyddion a phibellau yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol; • bod llystyfiant a deunyddiau hylosg eraill yn cael eu cadw i ffwrdd o'r ardal storio; • bod arwyddion rhybudd priodol.
Mae'r egsôst o offer sy'n llosgi nwy yn cynnwys nifer o nwyon niweidiol, yn enwedig Carbon Monocsid. Gall crynodiad o'r nwyon hyn fod yn ddifrifol a chael canlyniadau difrifol neu hyd yn oed farwol i unrhyw un yn y gweithle.	Ni allwch ei weld, ei flasu na'i arogl ond gall Carbon Monocsid ladd yn ddirybudd mewn mater o oriau.	Cadwch olwg am fflamau melyn neu oren, yn hytrach na fflamau glas (ac eithrio tanau effaith tanwydd neu offer heb fflwy sydd â fflam o'r lliw hwn), neu huddygl neu staeniau melyn/brown ar offer neu o'u hamgylch. A oes gennych chi fonitorau Carbon Monocsid? Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/>

Aseiad Risg Tân

Mae aseiad risg tân yn ofyn cyfreithiol ar gyfer pob gweithle. Gallai hyd yn oed tân bychan gael canlyniadau marwol a bydd gan hyn oblygiadau ariannol difrifol ar gyfer unrhyw fusnes.

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Yn ôl y gyfraith, rhaid i berson cymwys gynnal aseiad risg tân ar yr eiddo.	Bydd gan berson cymwys y wybodaeth i adnabod y risgiau ac awgrymu'r camau ymarferol y gallwch eu cymryd.	Drwy ddatblygu eich gwybodaeth eich hun, hyfforddi aelod o staff addas sydd â diddordeb, neu gyflogi ymgynghorydd cymwys. Gofynnwch am wybodaeth gan eich Awdurdod Tân.

Defnyddiwch y ffurflen asesu tân wag sydd wedi ei darparu ar y dudalen olaf i fynd drwy'r broses hon a gwneud aseiad risg tân o'ch eiddo. Llungopiwch y ffurflen os ydych angen mwy ar gyfer ardaloedd ychwanegol.

Aseiad risg diogelwch tân

1	Nodwch y peryglon tân Nodwch: <ul style="list-style-type: none">• ffynonellau tanio megis fflamau noeth• ffynonellau tanwydd megis hylifau fflamadwy• ffynonellau ocsigen megis yr aer o'n cwmpas
2	Nodwch y bobl sydd mewn perygl Nodwch: <ul style="list-style-type: none">• y bobl sydd yn yr eiddo ac o'i gwmpas, ac• y bobl sydd yn benodol mewn perygl
3	Gwerthuso, gwaredu neu leihau, a gwarchod rhag risg <ul style="list-style-type: none">• Gwerthuso'r risg o dân yn cynnau• Gwerthuso'r risg i bobl o dân• Gwaredu neu leihau'r peryglon tân• Gwaredu neu leihau'r risgiau i bobl o dân• Gwarchod pobl drwy ddarparu rhagofalon tân
4	Cofnodi, cynllunio, hysbysu, cyfarwyddo a hyfforddi <ul style="list-style-type: none">• Cofnodi unrhyw ganfyddiadau mawr a chamau gweithredu yr ydych wedi'i cymryd• Trafod a gweithio gyda phobl gyfrifol eraill• Paratoi cynllun argyfwng• Hysbysu a chyfarwyddo pobl benodol• Darparu hyfforddiant
5	Adolygu <ul style="list-style-type: none">• Adolygu eich aseiad risg tân yn rheolaidd• Gwneud newidiadau lle bo'r angen

Cofiwch adolygu eich aseiad risg tân yn rheolaidd

Asesiad Risg – Cofnod o ganfyddiadau arwyddocaol

Asesiad risg ar gyfer
Adeilad:

Lleoliad:

Asesiad wedi'i
wneud gan
Dyddiad:
Cwblhawyd gan:
Llofnod:

Defnydd:

Adnabod peryglon tân

Ffynonellau tanio

Ffynonellau
tanwydd

Ffynonellau ocsigen

Pobl mewn perygl

Gwerthuso, gwaredu, lleihau a gwarchod rhag risg

Risg bod tân yn digwydd

Risg i bobl wrth i dân gynnau yn
yr eiddo

Pa beryglon a allai achosi tân y
gellir eu gwaredu ac/neu eu
lleihau?

Sut ellir gwaredu ac/neu leihau'r
risgiau i bobl?

Adolygu'r Asesiad

Dyddiad asesu/adolygu

Cwblhawyd gan

Llofnod

Adolygu'r deilliant (lle mae newidiadau sylweddol wedi digwydd, dylid defnyddio taflen gofnodi newydd)

Cyflenwyr a Chontractwyr

Mae'r ffordd yr ydych yn ymdrin â chyflenwyr a chontractwyr yn bwysig.

Beth i'w wneud?	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Dewiswch eich cyflenwyr yn ofalus.	Mae'n bwysig defnyddio cyflenwyr sy'n cyflenwi ac yn ymdrin â nwyddau yn ddiogel, a rhai sy'n danfon ar amser ac ati.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis cyflenwyr y gallwch chi ymddiried ynddynt. • Gofynnwch y cwestiynau a ganlyn:- <ul style="list-style-type: none"> - A yw'r cyflenwr yn storio, yn cludo ac yn pacio ei nwyddau mewn ffordd ddiogel? - A yw'r cyflenwr/contractwr yn darparu anfonebau / derbynebau gyda chyfeirnodau llawn arnynt? - Oes ganddynt unrhyw ardystiadau neu sicrwydd ansawdd? - Pa mor gyflym y maent yn ymateb i bryderon? • Gofynnwch i fusnesau eraill am argymhellion. • Gwnewch yn siŵr bod gan y cyflenwr System/Polisi Rheoli Iechyd a Diogelwch. • Prynwch offer gan ddelwyr sydd ag enw da. • Gwnewch yn siŵr bod gwarant ar yr offer. • Gofynnwch am gyngor gan fanwerthwyr eraill neu sefydliad masnach.
Dewiswch eich contractwyr yn ofalus.	Gall gwasanaethau megis plymwyr neu drydanwyr fod yn werthfawr i helpu i wneud yn siŵr bod eich eiddo yn saff. Mae'n bwysig cael contractwyr y gallwch ymddiried ynddynt i gyflawni'r gwasanaethau hyn yn briodol.	
Gwnewch yn siŵr bod eich offer yn gweithio'n effeithiol.	Er mwyn i chi wneud yn siŵr bod eich gweithle yn saff, mae'n bwysig iawn bod yr holl offer yn gweithio'n effeithiol.	

Beth i'w wneud os yw pethau'n mynd o'i le?

Os nad ydych yn credu bod y danfoniad wedi cael ei drin a'i drafod yn ddiogel (er enghraifft, os ydych yn credu bod hyn wedi rhoi eich staff mewn perygl), gwrthodwch y danfoniad, os yw'n bosib, a chysylltwch â'ch cyflenwr ar unwaith. Os ydych yn cael problemau gydag unrhyw gyflenwr neu gontractwr, cofnodwch eich pryderon ar y daflen digwyddiadau. Os ydych yn cael problemau dro ar ôl tro, gallwch wneud yr isod, yn ddibynnol ar ba mor ddifrifol yw'r problem a'r ymateb y cewch.

1. Cysylltu â'r cyflenwr/contractwr ar y ffôn.
2. Ysgrifennu llythyr yn cwyno'n ffurfiol.
3. Newid cyflenwr/contractwr.
4. Cysylltu â'ch awdurdod lleol.

Cynnal a chadw eiddo

Os ydych chi'n gwneud gwaith addasu neu adnewyddu mawr yn eich eiddo, gallwch chi, eich staff, contractwyr, cwsmeriaid a'r cyhoedd fod yn agored i risg. Mae angen adnabod a rheoli'r risgiau hyn.

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
<p>Cyn gwneud unrhyw waith i'ch eiddo, mae angen i chi fod yn siŵr beth yw eich cyfrifoldebau o ran gwarchod iechyd a diogelwch y bobl a allai gael eu heffeithio rŵan neu yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r person sy'n gofyn i'r gwaith gael ei wneud / person sy'n talu amdano yn cael ei adnabod fel 'CLIENT'.</p>	<p>Gall cynllunio'n ofalus osgoi damweiniau ac atebolrwydd yn y dyfodol. Er enghraifft, lle mae asbestos yn y cwestiwn, fe allai hyn fod dros 30 mlynedd i'r dyfodol (gweler isod).</p> <p>Rhaid i chi gofrestru gwaith adeiladu penodol gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), fel arall fe allech gael eich erlyn.</p>	<p>A fydd y gwaith yn cymryd mwy na 30 diwrnod o'r dechrau i'r diwedd? Bydd <input type="checkbox"/> Na fydd <input type="checkbox"/></p> <p>A fydd yn fwy na 500 diwrnod gwaith person (h.y. 10 dyn yn gweithio am 50 diwrnod) Bydd <input type="checkbox"/> Na fydd <input type="checkbox"/></p> <p>Os mai'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau yw 'bydd', yna rhaid i chi benodi 'Cydlynnydd Rheoli Dyluniad Adeiladu' sy'n gyfrifol am hysbysu'r HSE ar ffurflen F10 cyn y bydd gwaith yn cychwyn. Mae angen adnabod DYLUNWYR e.e. pensaer, PRIF GONTRACTWYR a CHONTRACTWYR hefyd.</p> <p>Os ydych yn ateb 'na fydd' i'r ddau gwestiwn, yna nid oes angen hysbysu am y gwaith, ond mae'r canlynol yn dal yn berthnasol mewn cyfraith gyffredinol.</p>
<p>Cynlluniwch y gwaith yr ydych eisiau iddo gael ei wneud.</p>	<p>Mae nifer o ddamweiniau yn cael eu hachosi oherwydd diffyg cynllunio, e.e. syrthio o uchder sy'n cael ei achosi drwy ddefnyddio'r offer anghywir.</p>	<p>Ystyriwch pa waith yr ydych am iddo gael ei wneud a sut yr ydych chi am ei weld yn cael ei wneud, pa offer fydd ei angen a phwy fydd yn rhoi dyfynbris i chi am y gwaith. Trafodwch hyn gyda'r contractwyr yr ydych yn eu cael i roi dyfynbris am y gwaith.</p>
<p>Gwiriwch a oes unrhyw asbestos yn gysylltiedig â'r gwaith.</p>	<p>Mae asbestos yn risg hysbys i iechyd sy'n parhau i fod yn bresennol mewn sawl adeilad ac mae'n beryglus os yw'n cael ei styrbio, e.e. yn ystod gwaith adnewyddu.</p>	<p>Mae gan y person sy'n gyfrifol am yr adeilad 'ddyletswydd i reoli' unrhyw ddeunyddiau sydd ag asbestos ynddynt ac, os oes asbestos yn bresennol, darparu cynllun rheoli asbestos y gallwch gyfeirio ato. Mae dyletswydd arnoch i roi gwybod i bob contractwr am unrhyw asbestos sydd yn yr adeilad cyn iddynt ddechrau gweithio.</p>
<p>Adnabod y peryglon a rheoli'r risgiau cysylltiedig</p>	<p>Gall gwaith adeiladu a thrwsio newid risgiau neu gyflwyno peryglon newydd a allai anafu pobl ac fe allech chi gael eich dal yn gyfrifol am hynny.</p>	<p>Ewch ati i gynnal asesiad risg ar gyfer y gwaith a gwneud yn siŵr bod unrhyw gontractwyr yr ydych yn eu cyflogi yn gwneud yr un fath. Penderfynwch ba wybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant sydd angen ei roi i bob grŵp sy'n agored i risg, e.e. gweithwyr, cwsmeriaid, contractwyr. Ystyriwch yr ardaloedd blaenoriaeth, sef gweithio ar uchder, symud a thrin, trafndiaeth y gweithlu a llithro, baglu a chwympo. Mae taflennu asesu risg gwag yn y pecyn. Cofnodwch unrhyw gynlluniau a chytundebau i ymdrin â risgiau gyda'r contractwyr.</p>

Pwynt diogelwch Pam?		Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Dewiswch y contractwr cywir a gwnewch yn siŵr eu bod yn gymwys	Gall contractwyr sydd ddim yn gwybod beth yw'r rheolau achosi damweiniau.	<p>Rhaid i chi fod yn fodlon bod contractwyr yn gymwys (h.y. bod ganddynt ddigon o sgiliau a gwybodaeth) i wneud y gwaith yn ddiogel ac heb risgiau i iechyd a diogelwch. Bydd lefel y cymhwyster sydd ei angen yn dibynnu ar y gwaith sydd i'w wneud. Er enghraifft, gallwch ofyn wrth ddarpar contractwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa brofiad sydd ganddynt o wneud y math o waith yr ydych am ei wneud • Beth yw eu polisiau a'u hymarferion iechyd a diogelwch • Am eu perfformiad iechyd a diogelwch (nifer y damweiniau, ac ati) • Pa gymwysterau a sgiliau sydd ganddynt • Eu trefn ar gyfer dewis is-gontractwyr • Am eu datganiad dull diogel • Pa hyfforddiant a goruchwyliaeth iechyd a diogelwch y maent yn ei ddarparu • Eu trefniadau ar gyfer ymgynghori â'u gweithlu • Os oes ganddynt unrhyw asesiad annibynnol o'u cymhwyster • Os ydynt yn aelodau o gorff masnach neu broffesiynol perthnasol; neu • A oes ganddyn nhw neu eu gweithwyr 'basbort' hyfforddiant iechyd a diogelwch. Mae'r tuedd hwn ar gynnydd yn y maes adeiladu. <p>Gwnewch yn siŵr eu bod yn deall y perfformiad yr ydych yn ei ddisgwyl ganddynt. Eglurwch eich trefniadau iechyd a diogelwch iddynt, dangoswch eich gweithdrefnau a'ch datganiad polisi iechyd a diogelwch iddynt a gwnewch yn siŵr eu bod yn ei ddeall ac yn gweithredu yn unol ag ef.</p>
Sicrhau bod is-gontractwyr addas yn cael eu dewis	Gall is-gontractwyr gyflwyno risgiau nad oedd modd eu rhagweld oherwydd efallai nad ydynt yn ymwybodol o reolau diogelwch y safle	Mae'n debyg mai'r peth gorau i'w wneud yw gadael i'r contractwr ddewis is-gontractwyr. Fodd bynnag, rhaid i chi fod yn siŵr bod gan y contractwr drefn effeithiol yn ei lle ar gyfer gwerthuso cymhwysedd is-gontractwr, e.e. drwy ddefnyddio'r un meini prawf â chi (gweler rhestr uchod)
Goruchwyllo'r gwaith sy'n cael ei wneud	Weithiau, mae'r bobl sy'n cyrraedd i wneud y gwaith yn wahanol i'r rhai a gynlluniodd y gwaith ac maent yn penderfynu gwneud pethau yn wahanol, e.e. i arbed amser. Gall hyn arwain at ddamweiniau.	Drwy wneud yr uchod, gobeithio y bydd gennych ddealltwriaeth glir o beth yr ydych yn talu amdano wrth gyflogi contractwr i wneud gwaith. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael beth y cytunwyd arno, o ran ansawdd a'r dulliau a ddefnyddiwyd – cadwch lygad allan am unrhyw dorri corneli a allai arwain at ddamweiniau.
Gofynnwch am gyngor os ydych mewn unrhyw amheuaeth	Er mwyn gwybod os yw rhywbeth yn iawn neu ddim, mae angen i chi wybod beth sy'n iawn yn y lle cyntaf.	Rhaid i chi gydnabod faint yr ydych yn ei wybod eich hun mewn gwirionedd – os oes angen, gofynnwch am gyngor gan rywun sy'n deall y pwnc, e.e. cydlynnydd CDM, drwy wefan yr HSE neu gan eich Cyngor lleol.

Arfer dda wrth ail-addurno

Wrth wneud gwaith cynnal a chadw o ddydd-i-ddydd, ail-addurno ac adnewyddu eich eiddo, fe allwch chi, eich gweithwyr, contractwyr, cwsmeriaid ac aelodau o'r cyhoedd fod yn agored i risg. Mae angen adnabod y risgiau yma a'u rheoli.

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Cyn i chi ddechrau gweithio, mae angen i chi fod yn siŵr beth yw eich cyfrifoldebau iechyd a diogelwch.	<p>Gall cynllunio gofalus osgoi damweiniau ac atebolrwydd yn hwyrach ymlaen.</p> <p>Er enghraifft, o ran asbestos, gallai hyn fod dros 30 mlynedd yn y dyfodol.</p> <p>Hefyd, rhaid i chi gofrestru gwaith adeiladu penodol gyda'r HSE, neu fe allech gael eich erlyn.</p>	<p>Nodwch beth fydd y gwaith yn ei gynnwys a sut yr ydych yn dymuno iddo gael ei wneud.</p> <p>Amcangyfrifwch ba mor hir y bydd hyn yn ei gymryd a faint o bobl fydd yn cael eu cyflogi wrth i'r gwaith gael ei wneud:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mwy na 30 diwrnod? Bydd <input type="checkbox"/> Na fydd <input type="checkbox"/> Mwy na 500 o ddyddiau person? Bydd <input type="checkbox"/> Na fydd <input type="checkbox"/> <p>Os byddwch yn ateb 'bydd' i unrhyw un, rhaid i chi ddweud wrth yr HSE drwy ddefnyddio ffurflen F10 – gweler y daflen Cynnal a Chadw Eiddo (<i>Property Maintenance</i>)</p> <p>Ydych chi am ddefnyddio contractwr? Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/></p> <p>Os ydw – gweler y daflen dull diogel Cynnal a Chadw Eiddo.</p>
Cynlluniwch y gwaith yr ydych am iddo gael ei wneud	Mae nifer o ddamweiniau'n cael eu hachosi drwy ddiffyg cynllunio e.e. syrthio o uchder yn digwydd wrth ddefnyddio'r offer anghywir	<p>Beth ydych chi ei eisiau, sut ydych chi am iddo gael ei wneud, pa offer fydd ei angen, gan bwy ydych chi am gael dyfynbris am y gwaith?</p> <p>Trafodwch hyn gydag unrhyw gontractwr a allai roi dyfynbris i chi am y gwaith a chofnodwch unrhyw gynlluniau y cytunwyd arnynt.</p>
Gwiriwch a oes unrhyw asbestos yn gysylltiedig â'r gwaith	Mae asbestos yn risg hysbys i iechyd sy'n dal yn bresennol mewn llawer o adeiladau ac mae'n beryglus os yw'n cael ei styrbio gan waith adnewyddu.	<p>A oes unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos wedi'u hadnabod? Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/> Ddim yn gwybod <input type="checkbox"/></p> <p>Os 'oes' neu 'ddim yn gwybod' – gwiriwch y rhan ar reoli Asbestos.</p> <p>Dywedwch wrth unrhyw gontractwr a sicrhewch bod yr ymchwiliadau a'r camau rhagofalus cywir yn cael eu cymryd, yn ddibynnol ar y sefyllfa – gofynnwch am gyngor gan gontractwr asbestos trwyddedig os oes angen.</p>
Nodwch unrhyw beryglon eraill a rhowch drefniadau yn eu lle i reoli'r risgiau dan sylw	Gall hyd yn oed y tasgau symlaf newid y risgiau neu gyflwyno peryglon newydd yn eich gweithle a allai anafu pobl ac fe allech chi gael eich dal yn gyfrifol.	<p>Nodwch beth allai fynd o'i le a rhowch gamau yn eu lle i atal niwed. Efallai y byddwch yn dymuno defnyddio'r daflen asesu risg wag i wneud hyn.</p> <p>Gwnewch yn siŵr bod unrhyw gontractwr yr ydych yn eu cyflogi yn gwneud yr un peth ac yn rhoi crynodeb ysgrifenedig i chi o'r risgiau a'r camau rhagofalus.</p> <p>Penderfynwch pa wybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant y mae pob grŵp sy'n agored i risg (gweithwyr, cwsmeriaid, contractwyr) angen ei wybod a dywedwch wrthynt.</p>



Ticiwch bob un o'r meysydd gweithredu â blaenoriaeth isod sy'n berthnasol ac sydd angen asesiad risg:

Syrthio o uchder (unrhyw ddefnydd o ysgol?)

Codi trwm (symud a thrin)

Bod yn agored i sylweddau niweidiol

e.e. mygdarth cemegol, llwch, 'sensitisers' croen (COSHH)

Sioc drydanol/tân

Defnyddio offer peryglus

e.e. tŵls pŵer i'w defnyddio â llaw

Risg i gerddwyr yn sgil cerbydau?

Gwrthrychau yn syrthio o uchder ar ben pobl?

Posibilrwydd o lithro a baglu?

II' Ar gyfer pob un yr ydych yn rhoi tic yn ei erbyn, gwnewch asesiad risg ar yr agwedd benodol hon.

II' Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu'r offer a'r PPE cywir ar gyfer y dasg, e.e. tŵr sgaffaldau neu lifftiau siswrn yn lle defnyddio ysgolion, tŵls pŵer 110v yn lle 240v y tu allan, paent '*water based*' yn lle paent '*oil based*', menig feinyll yn lle rhai latex.

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Paratoi ar gyfer unrhyw ddamweiniau	Dim ots pa mor dda y cafodd y gwaith ei gynllunio, gall rhywbeth fynd o'u le yr un fath	A oes gennych chi focs cymorth cyntaf llawn? Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/> Os 'nac oes', gofynnwch am gyngor a phrynwch un o'r fferyllfa. Gwiriwch y daflen dull diogel 'adrodd am ddamweiniau' yn y pecyn.
Goruchwyliwch y gwaith sy'n cael ei wneud	Chi sy'n gyfrifol am eich eiddo, felly mae'n gwneud synnwyr eich bod yn cadw llygad ar beth sy'n mynd yn ei flaen a bod pethau'n cael eu gwneud yn ddiogel.	Gobeithio, drwy wneud yr uchod, y bydd gennych ddealltwriaeth glir o sut y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ddiogel – cadwch lygad allan am unrhyw dorri corneli a chofnodwch unrhyw broblemau ar y daflen digwyddiadau.
Gofynnwch am gyngor os ydych chi mewn unrhyw amheuaeth	Er mwyn gwybod os yw rhywbeth yn iawn neu ddim, rydych chi angen gwybod beth sy'n iawn yn y lle cyntaf.	Rhaid i chi gydnabod faint yr ydych yn ei wybod eich hun mewn gwirionedd – os oes angen, gofynnwch am gyngor gan rywun sy'n deall y pwnc, e.e. cydlynedd CDM, drwy wefan yr HSE neu gan eich Cyngor Lleol.

Amddiffyn

- Asbestos
- Diogelwch Cemegol
- Dermatitis sy'n gysylltiedig â'r gwaith
- Asthma sy'n gysylltiedig â'r gwaith
- Clefyd y Lleng filwyr (*Legionella*)



Asbestos

Asbestos yw'r Lladdwr Iechyd Galwedigaethol mwyaf, gan achosi 3500 o farwolaethau y flwyddyn.

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Mae asbestos yn fwyn ffibrog sydd i'w ganfod yn gyffredin mewn adeiladau a adeiladwyd cyn 2000. Os ydych chi'n gyfrifol am gynnal a chadw neu drwsio adeilad, yna mae dyletswydd arnoch chi i reoli unrhyw asbestos sydd yn yr adeilad.	Wrth gael eu mewnanadlu, gall y ffibrau ddifrodi'r ysgyfaint ac achosi canser.	Nid oes gennym unrhyw Ddeunydd sy'n Cynnwys Asbestos ar y safle. Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/> Nid oes angen i chi gwblhau'r rhan hon ymhellach os ydych chi wedi ateb 'oes' uchod. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn dymuno cwblhau ffurflenni'r arolwg drosodd.
Dylid cynnal arolwg o'r adeilad i adnabod unrhyw Ddeunydd sy'n Cynnwys Asbestos (ACM).	Drwy nodi lleoliad a chyflwr yr ACM, gellir atal rhyddhau ffibrau asbestos yn ddamweiniol	Rydym wedi cynnal archwiliad (math 1) o'n busnes ac wedi nodi lleoliad unrhyw ACM posib ar y ffurflen AROLWG. Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/> Rydym wedi cynnal: Arolwg Math 1 (Gweledol). Arolwg Math 2 (Asesu a Samplo). Mae'r adroddiad i'w weld yn: <div data-bbox="821 1124 1481 1429" style="border: 1px solid black; height: 136px; width: 413px;"></div>


<p>Dylid rheoli ACM a chynllunio'r holl waith adeiladu a chynnal a chadw gan roi ystyriaeth i ACM.</p>	<p>Gall staff a chontractwyr ddod i gyswllt â ffibrau Asbestos yn rhwydd yn ystod gwaith plymio, trydanol neu adeiladu.</p>	<p>Rydym wedi cynnwys Cynllun Rheoli Asbestos yn y pecyn yma</p> <p>Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/></p> <p>neu</p> <p>Mae gennym gynllun rheoli sydd wedi'i ysgrifennu. Gellir dod o hyd iddo yn:</p> <div data-bbox="815 396 1473 696" style="border: 1px solid black; height: 134px; width: 412px;"></div>
--	---	---

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
<p>Dylid tynnu sylw unrhyw un sy'n gweithio ar yr adeilad am bresenoldeb ACM cyn cychwyn ar unrhyw waith, fel bod modd iddynt gynllunio'r gwaith yn briodol.</p>	<p>Bydd tynnu sylw gweithwyr o leoliad a chyflwr ACM cyn iddynt gychwyn ar y gwaith yn lleihau'r tebygolrwydd fod ACM yn cael ei styrbio a ffibrau'n cael eu rhyddhau.</p>	<p>Mae gofyn i bob contractwr sy'n gweithio ar yr adeilad i lofnodi datganiad sy'n nodi eu bod yn ymwybodol fod ACM yn yr adeilad ac na ddylid gwneud unrhyw waith yn yr ardaloedd hyn neu gerllaw iddynt hyd nes bod asesiad risg manwl wedi'i gwblhau.</p>
<p>Enghreifftiau o Ddeunydd sy'n Cynnwys Asbestos (ACM) cyffredin.</p>		

Asbestos wedi'i
chwistrellu a Lagin.



Dalenni Ynysu
Asbestos.



Tecstilau Asbestos.



Ffurflen Arolygu Asbestos

Enw'r Ystafell	Deunyddiau Adeiladu	Disgrifiad o'r Lleoliad	Tybio ei fod yn Asbestos Y/N

Cynllun Rheoli Asbestos

Enw'r Ystafell	Rhif eitem y cynllun	Deunydd adeiladu	Tybio ei fod yn asbestos (P) neu wedi'i gadarnhau (C)	Cam gweithredu'r Cynllun Rheoli
ENGHRAIFFT Swyddfa Flaen	1	Teils ynysu nenfwd Asbestos	(C)	Mewn cyflwr da. Arsylwi bob mis. Os bydd unrhyw ddirywiad yn cael ei nodi, cysylltu â syrfëwr achrededig am gyngor.

Diogelwch Cemegol

Waeth beth fo maint eich busnes, byddwch yn defnyddio rhai cemegolion. Mae rhai cemegolion a sylweddau yn niweidiol, yn gallu achosi anaf neu salwch. Rhaid i chi asesu risg y deunyddiau yma ac amddiffyn staff ac aelodau'r cyhoedd.

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Rhaid i chi atal neu reoli'n briodol unrhyw gyswllt â chemegolion neu sylweddau peryglus.	Gall defnyddio cemegolion neu sylweddau peryglus eraill yn y gwaith roi iechyd pobl mewn perygl, felly mae'r gyfraith yn gofyn i gyflogwyr reoli cyswllt â sylweddau peryglus er mwyn atal salwch.	Drwy asesu'r risg i staff a gweithredu unrhyw fesurau rheoli angenrheidiol, e.e. PPE, hyfforddiant. A yw'r staff yn defnyddio cemegolion neu sylweddau peryglus? Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/>
Rydym yn defnyddio'r cemegolion neu'r sylweddau peryglus yma		
<p>Enghreifftiau</p> <p>Sylweddau sy'n cael eu defnyddio yn uniongyrchol yn y gwaith (e.e. glud, paent, cemegolion glanhau);</p> <p>Sylweddau sy'n cael eu cynhyrchu yn ystod gweithgareddau gwaith (e.e. mygdarth wrth sodro a weldio);</p> <p>Sylweddau sy'n cael eu creu yn naturiol (e.e. llwch o grawn);</p> <p>Deunydd biolegol megis bacteria a micro-organebau eraill.</p>	Mae gennym ni	Rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer
	<div style="border: 1px solid black; height: 100px;"></div>	<div style="border: 1px solid black; height: 100px;"></div>

Adnabod y cemegolyn neu'r sylwedd peryglus.	Pennu'r effaith bosib ar iechyd.	Rhaid i chi gael a darllen y Taflenni Data Diogelwch ar gyfer y cemegolyn gan eich cyflenwr. Bydd hyn yn dweud wrthy ch chi beth yw'r peryglon, sut ddylai gael ei drin a'i drafod, ei storio a'i waredu a beth ddylid ei wneud os bydd damwain. Ar gyfer rhai cemegolion mae'r wybodaeth diogelwch wedi'i chynnwys ar y label, e.e. cannydd (<i>bleach</i>).
---	----------------------------------	---

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Dylid defnyddio a thrin a thrafod cemegolion neu sylweddau peryglus mewn dull diogel.	Gallai defnyddio sylweddau peryglus arwain at gyswllt drwy fewnanadlu, cyswllt uniongyrchol â'r croen, sblasio i'r llygaid neu amlyncu.	Dilynwch ganllawiau'r gweithgynhyrchwr ar y taflenni data diogelwch. Gallai hyn gynnwys defnyddio PPE ac mae'n rhaid iddo fod yn addas ar gyfer y cynnyrch. Cofnodwch hyn ar eich rhestr wirio Diogelwch Cemegolion ar ddiwedd y rhan hon.
A oes gennych yr offer gwarchod cywir?	Mae offer gwarchod yn atal neu'n lleihau cyswllt â'r cynnyrch peryglus.	Ydych chi'n gwirio cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr ac yn darparu'r offer gwarchod sy'n cael eu nodi? Ydym <input type="checkbox"/> Nac ydym <input type="checkbox"/> Ydych chi'n hyfforddi staff i ddefnyddio'r offer gwarchod yn briodol? Ydym <input type="checkbox"/> Nac ydym <input type="checkbox"/> Ydych chi'n gwirio ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol? Ydym <input type="checkbox"/> Nac ydym <input type="checkbox"/>

<p>A yw'r cemegolion a'r sylweddau peryglus yn cael eu storio'n ddiogel?</p>	<p>Dylid storio cemegolion a sylweddau mewn ffyrdd penodol, fel y nodir gan y gweithgynhyrchwr neu'r cyflenwr gan y gallant fod yn risg tân. Gall cyfyngu mynediad at sylweddau peryglus atal defnydd anawdurdodedig a chysylltiad.</p>	<p>Lle mae'r cemegolion yn cael eu storio?</p> <div data-bbox="813 197 1471 309" style="border: 1px solid black; height: 50px; width: 100%;"></div> <p>Oes gan eich cemegolion unrhyw ofynion storio penodol, e.e. awyru, gwahanu cemegolion. Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/></p> <p>Os 'oes', beth ydyn nhw?</p> <div data-bbox="813 515 1471 660" style="border: 1px solid black; height: 65px; width: 100%;"></div> <p>Sut ydych chi'n atal mynediad anawdurdodedig?</p> <div data-bbox="813 705 1471 851" style="border: 1px solid black; height: 65px; width: 100%;"></div> <p>Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr uchod yn cael ei wneud?</p> <div data-bbox="813 918 1471 1064" style="border: 1px solid black; height: 65px; width: 100%;"></div>
--	---	---

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
------------------------	-------------	------------------------------------

<p>Rhaid i staff fod wedi'u hyfforddi yn briodol i ddefnyddio cemegolion a sylweddau peryglus yn gywir.</p>	<p>Mae gan rhai gynnyrch peryglus risgiau nad ydynt yn amlwg i bobl sy'n eu defnyddio.</p> <p>Bydd hyfforddiant gloywi yn lleihau'r siawns o ddatblygu arferion drwg yn y gweithle.</p>	<p>Ydych chi'n hyfforddi staff ar y cynnyrch peryglus yr ydych yn eu defnyddio? Ydym <input type="checkbox"/> Nac ydym <input type="checkbox"/></p> <p>Ydych chi'n darparu hyfforddiant gloywi? Ydym <input type="checkbox"/> Nac ydym <input type="checkbox"/></p> <p>Os 'ydym', pa mor aml? <input type="text"/></p> <p>Pwy sy'n gyfrifol am gynnal yr hyfforddiant? <input type="text"/></p> <p>Cofnodwch hyfforddiant staff ar y taflenni cofnodi hyfforddiant staff <input type="text"/></p>
---	---	---

Dermatitis cysylltiedig â'r gwaith

Dermatitis cysylltiedig â'r gwaith (sy'n cael ei alw'n aml yn ecsema) yw un o'r prif bethau sy'n achosi salwch i staff arlwygo a glanhau ac mae'n gyflwr poenus iawn. Fodd bynnag, mae'n hawdd atal dermatitis drwy ddefnyddio technegau hylendid da.

Beth yw dermatitis?

Mae dermatitis yn gyflwr croen sy'n cael ei achosi drwy gyswllt â rhywbeth sy'n llidio'r croen neu'n achosi adwaith alergol. Fel arfer, mae'n digwydd pan mae'r llidiwr (*irritant*) yn cyffwrdd y croen, ond ddim bob amser.

Os ydych yn edrych ar groen sydd â dermatitis, gallech weld un neu bob un o'r arwyddion yma:

Cochni

Croen yn plicio

Bothelli

Croen yn llifo

Cracio

Chwyddo



Mae dau fath o dermatitis cyswllt:

Llidiwr ac Alergol

Beth sy'n achosi dermatitis cyswllt llidiwr?

Gall ddigwydd yn gyflym ar ôl cyswllt â llidiwr cryf, neu dros gyfnod hirach o amser ar ôl cyswllt ailadroddus â llidwyr gwannach. Gall llidwyr fod yn gemegol, biolegol, mecanyddol neu ffisegol.

Gall cyswllt ailadroddus a pharhaus â dŵr (e.e. golchi dwylo fwy na 20 gwaith neu fod â dwylo gwlyb am fwy na 2 awr bob shift), hefyd achosi dermatitis llidiwr.

Enghreifftiau o dermatitis cyswllt llidiwr:

Gwaith gwlyb

Sebon, siampŵ a glanedyddion

Toddyddion (*solvents*)

Rhai bwydydd (e.e. nionod)

Olewau a saim

Llwch

Asidau ac alcalïau



Beth sy'n achosi dermatitis cyswllt alergol?

Gall hyn ddigwydd pan fo'r dioddefwr yn datblygu alergedd i sylwedd. Unwaith y mae rhywun yn 'sensitised', mae'n debygol y bydd hyn yn barhaol a bydd unrhyw gyswllt â'r croen gyda'r sylwedd hwnnw yn achosi dermatitis cyswllt alergol. Yn aml, mae 'sensitisers' croen hefyd yn llidwyr.

Ymysg yr achosion mwyaf cyffredin o dermatitis cyswllt alergol mae:

Rhai sylweddau lliwio gwallt

Inciau argraffu '*UV cured*'

Glud

Rhai bwydydd (e.e. cregynbysgod, blawd, garlleg)

Sment gwlyb

Rhai planhigion (e.e. *chrysanthemums*)



Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
<p>OSGOI cyswllt uniongyrchol Osgoi cyswllt uniongyrchol rhwng dwylo heb eu hamddiffyn a sylweddau, cynnyrch a gwaith gwlyb lle mae hyn yn synhwyrol ac yn ymarferol, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cael gwared ar y sylwedd/cynnyrch/gwaith gwlyb yn gyfan gwbl. • Newid y cynnyrch/sylwedd am ryw beth llai niweidiol. • Cyflwyno mesurau rheoli (megis tŵls neu offer) i gadw pellter gweithio diogel rhwng y croen a sylweddau/cynnyrch/gwaith gwlyb. 	<p>Gallai cyswllt â sylweddau a chynnyrch penodol ac/neu waith gwlyb rheolaidd achosi dermatitis</p>	<p>Beth ydych chi'n ei wneud i osgoi cyswllt?</p> <div data-bbox="1019 369 1469 750" style="border: 1px solid black; height: 170px;"></div>
<p>AMDDIFFYN y Croen Ni fydd bob amser yn bosib osgoi cyswllt, felly:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparwch PPE addas, megis menig. • Dywedwch wrth weithwyr i olchi eu dwylo cyn bwyta ac yfed, a chyn gwisgo menig. Sicrhewch bod systemau glanhau addas yn bodoli i weithwyr symudol. • Darparwch ddeunydd golchi croen mwyn ac eli (<i>moisturiser</i>) a chyfleusterau golchi gyda dŵr poeth ac oer. • Atgoffwch weithwyr i olchi unrhyw halogiad oddi ar eu croen ar unwaith. • Darparwch dyweli meddal (cotwm neu bapur tafladwy) ar gyfer sychu'r croen. Dywedwch wrth weithwyr am bwysigrwydd sychu'n drylwyr ar ôl ymolchi. • Gwarchodwch y croen drwy ddefnyddio eli (<i>moisturiser</i>) mor aml â phosib ac yn enwedig ar ddiwedd y dydd – mae hyn yn ailgyflenwi'r olewau naturiol sy'n cadw haen warchodol y croen yn gweithio'n iawn. • Defnyddiwch eli rhwystrol (<i>barrier cream</i>) addas cyn ac yn ystod y gwaith. 	<p>Bydd cyfyngu ar y gwaith sy'n debygol o achosi neu arwain at dermatitis, gan ddarparu PPE a sicrhau bod dwylo'n cael gofal yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd eich staff yn datblygu'r cyflwr hwn.</p>	<p>Beth ydych chi'n ei wneud i amddiffyn?</p> <div data-bbox="1005 902 1469 1809" style="border: 1px solid black; height: 405px;"></div>

GWIRIWCH ddwylo yn rheolaidd

- Gwiriwch eich dwylo yn rheolaidd am yr arwyddion cyntaf o groen coslyd, sych neu goch.
- Pan fo problemau croen yn cael eu canfod yn gynnar, mae modd eu trin, ac fe all hyn eu hatal rhag mynd yn rhy ddrwg.
- Gofynnwch am gyngor gan eich Meddyg Teulu os ydych yn amau bod gennych chi broblemau croen.

Gwiriwch yn rheolaidd bod yr holl gamau hyn yn cael eu gwneud yn ymarferol.

Os mai menig gwarchodol yw'r unig opsiwn, yna mae'n hanfodol eich bod yn sicrhau mai dyma'r menig cywir ar gyfer y math o waith dan sylw.

Pan ydych yn dewis menig gwarchod, seiliwch eich dewis ar y gwaith, y gwisgwr a'r amgylchedd y maent yn gweithio ynddo. Mae angen i chi ystyried y pum ffactor a ganlyn:

- Adnabod y sylweddau sy'n cael eu trin a'u trafod.
- Adnabod yr holl beryglon eraill.
- Ystyried math a hyd y cyswllt.
- Ystyried y defnyddiwr – maint a pha mor gyfforddus ydyn nhw.
- Ystyried y dasg.

Mae monitro rheolaidd yn eich galluogi i adnabod unrhyw broblemau yn brydlon, cyn i'r sefyllfa fynd yn rhy ddifrifol.

Efallai na fydd menig sy'n ffitio'n wael neu fenig annigonol yn gwarchod y gwisgwr yn ddigonol neu fe all drapio dŵr a sylweddau eraill yn agos i'r croen, gan arwain at dermatitis.

Beth ydych chi'n ei wneud i wirio?

Ydych chi'n defnyddio menig?

Ydw

Nac ydw

Menig i'w defnyddio:

Tasg	Menig i'w defnyddio

Asthma sy'n gysylltiedig â'r gwaith

Beth yw Asthma sy'n gysylltiedig â'r gwaith?

Asthma sy'n gysylltiedig â'r gwaith yw asthma sy'n cael ei achosi neu ei waethygu gan y gwaith.

Efallai bod gan rai asthma cyn iddynt ddechrau gweithio, ond gall sylweddau yn y gweithle wneud eu asthma yn waeth.

Hefyd, mae sylweddau sy'n cael eu defnyddio yn y gwaith sy'n gallu achosi asthma mewn pobl sydd fel arall yn iach, e.e. blawd neu llwch llif. Mae'r sylweddau hyn yn cael eu galw yn sensiteiddwyr resbiradol ('*respiratory sensitisers*') neu '*asthmagens*'. Unwaith y bydd rhywun yn mynd yn sensitif i'r rhain, gall hyd yn oed symiau bychan o'r sylwedd achosi pwl o asthma.

Gall rhai sylweddau wneud asthma presennol yn waeth. Mae'r rhain yn cael eu galw'n 'lidwyr resbiradol' ('*respiratory irritants*') ac fe allant arwain at byliau yn y rhai sy'n dioddef o asthma sy'n cael ei achosi gan y gwaith neu rai sy'n dioddef o asthma eisoes. Mae'r enghreifftiau o hynny yn cynnwys clorin, llwch cyffredinol a hyd yn oed aer oer.

Symptomau

Gall pobl weithio gyda sylwedd am fisoedd neu flynyddoedd lawer cyn iddynt fynd yn sensitif i'w anadlu i mewn.

Weithiau, mae'r symptomau yn cychwyn cyn gynted ag y mae'r person yn dod i gyswllt â'r sylwedd, ond yn aml maent yn cael eu hoedi am sawl awr, felly maent ar eu gwaethaf gyda'r nos neu dros nos, ac efallai na fydd gweithwyr yn sylweddoli mai gwaith sy'n achosi'r broblem. Gallai'r symptomau wella yn ystod y penwythnos ac yn ystod gwyliau pan maent wedi cael seibiant rhag y sylwedd.

Symptomau asthma yw pyliau o dagu, gwichian, diffyg anadl neu deimlad tynn yn y frest. Hefyd, gall pobl ddatblygu *rhinitis* a *conjunctivitis* – trwyn sy'n llawn neu'n rhedeg a llygaid pigog neu'n llifo.

Unwaith y bydd person yn sensitif iddo, gall cyswllt parhaus arwain at ddifrod parhaol i'w ysgyfaint a symptomau cynyddol waeth.

Gall pobl gyda *rhinitis* fynd ymlaen i ddatblygu asthma. Mae'n debygol y bydd y pyliau o asthma yn mynd yn waeth a chael eu hachosi gan lidwyr resbiradol. Yn aml, mae'r pyliau yma yn dal i ddigwydd am flynyddoedd ar ôl iddynt roi'r gorau i ddod i gyswllt â'r sensiteiddiwr.

Beth sy'n achosi asthma?

Gall nifer o sylweddau gwahanol fod yn sensiteiddwyr resbiradol. Cemegolion, metelau a sylweddau naturiol sy'n tarddu o anifeiliaid neu blanhigion. Gweler isod restr o grwpiau o sylweddau sy'n benodol debygol o achosi asthma a lle y gallwch eu defnyddio yn eich busnes.

Mae rhai o'r gweithgareddau yn y pecyn yma sy'n cael eu galw'n 'Meysydd sydd angen Gofal Ychwanegol' yn rhai lle mae asthma yn rywbeth risg uchel, er enghraifft, y dudalen 'Llwch Blawd' sy'n ymdrin â llwch blawd a chemegolion aeddfedu blawd (*flour improvers*). Rhaid i chi gael y tudalennau hyn os ydynt yn berthnasol i'ch busnes.

Chwiliwch am frawddeg risg **R42 'may cause sensitisation by inhalation'** neu **R42/43 'May cause sensitisation by inhalation and skin contact'** ar labeli cynnyrch a thafleuni data diogelwch ar gyfer y sylweddau yr ydych yn eu defnyddio; dylai hyn ddweud wrthyh chi os oes unrhyw sylwedd yn cael ei adnabod fel un sy'n gallu achosi asthma neu ei wneud yn waeth.

Grwpiau Sylweddau	Lle mae'n codi fel arfer
<ul style="list-style-type: none"> • <i>Isocyanates</i> • <i>Dander</i> anifeiliaid (e.e. naddion croen) • Llŵch graean/ Llŵch gwair / Llŵch blawd / cemegolion aeddfedu blawd (<i>improvers</i>) • Llŵch llif (pren) • Fflwcs sodr /mygdarth coloffoni • Latecs • Deunydd pecynnu ffilm sy'n cael ei selio â gwifren boeth (<i>hot-wire-sealed film wrapping</i>) • Cregynbysgod h.y. corgimychiaid • Glud a resin 	<ul style="list-style-type: none"> • Paent 2 becyn sy'n cael ei ddefnyddio i chwistrellu paent ar gerbydau • Siopau anifeiliaid anwes, sefydliadau lletya anifeiliaid • Becws, arlwywyr, trin a thrafod gwair, bragu • Unedau gwaith coed, cyflenwyr deunyddiau adeiladu, melinau coed • Gwaith trwsio/cydodod deunyddiau electronig • Menig gwarchod wedi'u gwneud o latecs • Pecynnu cynnyrch bwyd • Prosesu cregynbysgod • Caledu resin epocsi

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
Mae angen rheoli'r defnydd o sylweddau penodol. Gweler uchod restr o sylweddau a lle mae'n bosib y gellir dod ar eu traws.	Mae'r sylweddau yma yn debygol o arwain at Asthma Galwedigaethol.	Ydych chi'n defnyddio cemegolion / grwpiau o sylweddau a allai achosi asthma galwedigaethol? Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/>
Mae'r defnydd o sensiteiddwyr resbiradol penodol a'u lefelau yn yr aer yn cael eu rheoli'n gaeth gan ddeddfwriaeth.	Mae rhai sensiteiddwyr resbiradol mor beryglus fel bod Cyfyngiad Cyswllt yn y Gweithle (<i>Workplace Exposure Limits</i> (WEL) a Chyfyngiadau Cyswllt Byrdymor (<i>Short Term Exposure Limits</i>) (STEL) wedi'u gosod arnynt. Mae'r rhain yn grynodiadau o'r sylwedd yn yr aer, ac mae gofyn cyfreithiol arnoch i gymryd camau penodol gan eu bod yn hysbys fel rhai sy'n effeithio ar iechyd.	Gallwch ddod o hyd i'r rhestr o gemegolion sydd â WEL neu STEL arnynt drwy chwilio ar wefan AGID (www.hse.gov.uk) am EH40. Bydd angen i chi gael cyngor arbenigol os ydych chi'n defnyddio'r cemegolion hyn. Cwblhewch yr adran isod os ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r sylweddau yma.

Adran Cyfyngiad Cyswllt yn y Gweithle a Chyfyngiadau Cyswllt Byrdymor		
Sylwedd	Pwy sy'n dod i gyswllt	Pa fesurau rheoli sydd gennych chi?

Gwybodaeth, Cyfarwyddiadau a Hyfforddiant i Weithwyr

Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i hysbysu, rhoi cyfarwyddyd a hyfforddi staff sy'n debygol o ddod i gyswllt â sensiteiddwyr resbiradol fel eu bod yn gwybod ac yn deall:

- y risgiau i iechyd;
- symptomau sensiteiddiad;
- pwysigrwydd adrodd am fân symptomau yn gynnar;
- defnyddio'r mesurau rheoli yn briodol;
- yr angen i adrodd ar unwaith am unrhyw fethiant gyda'r mesurau rheoli.

Gwyliadwriaeth Iechyd

BETH YW HYN?

Gwyliadwriaeth iechyd yw cadw llygaid am arwyddion cynnar salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith mewn gweithwyr sy'n dod i gyswllt â risgiau penodol i iechyd. Mae hyn yn helpu i atal asthma drwy ganfod yr arwyddion cynnar.

Nid yw Gwyliadwriaeth Iechyd fyth yn rhywbeth i'w ddefnyddio yn lle rheoli'r cyswllt yn briodol. Nid yw'r un peth â sgrinio iechyd neu hyrwyddo iechyd.

BETH YDW I ANGEN EI WNEUD?

Rhaid i chi sefydlu system wylidwriaeth iechyd os yw eich gweithwyr yn dod i gyswllt â sensiteiddwyr resbiradol, oni bai eich bod yn hyderus bod eich asesiad yn dangos ei bod yn annhebygol o fod yn risg i'w hiechyd.

Dylech gysylltu â'r Employment Medical Advisory Service drwy'r swyddfa AGID lleol fydd yn medru argymhell Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Galwedigaethol i roi cyngor i chi.

Enghraifft o Holiadur Gwyladwriaeth Iechyd

Efallai y byddwch yn dymuno gwneud llungopi o'r templed hwn i'w ddefnyddio wrth holi staff pan maent yn cael eu cyflogi am y tro cyntaf ac yna'n rheolaidd yn ystod eu cyflogaeth.

Enw'r gweithiwr

Rhif cyfeirnod

Oes Na

Oes gennych chi unrhyw broblemau ar y frest, e.e. cyfnodau o ddiffyg anadl, gwichian, teimlad tynn yn y frest neu byliau o beswch?

Ers cychwyn ar eich swydd bresennol (neu yn eich swydd flaenorol), ydych chi wedi dioddef o unrhyw un o'r symptomau isod (peidiwch â chynnwys cyfnodau o annwyd, dolur gwddf neu'r ffliw)

a) llygaid annifyr neu lygaid yn dyfrio sy'n digwydd sawl tro,

Do Na

b) trwyn wedi blocio neu drwyn yn rhedeg sy'n digwydd sawl tro,

Do Na

c) pyliau o beswch,

Do Na

d) teimlad tynn yn y frest,

Do Na

e) gwichian,

Do Na

f) diffyg anadl,

Do Na

g) unrhyw broblemau eraill parhaus gyda'r frest.

Do Na

Ydych chi wedi ymgynghori â'ch meddyg am unrhyw un o'r uchod ers yr holiadur diwethaf?

Do Na

I'w gwblhau gan y person cyfrifol:

a) dim angen gweithredu pellach

b) cyfeirio at ymgynghorydd iechyd galwedigaethol y cwmni

Llofnod y person cyfrifol

Dyddiad

Rwyf yn cadarnhau bod fy ymatebion yn gywir ac fy mod wedi cael copi o'r holiadur wedi'i lenwi.

Llofnod

Dyddiad

Beth ddylwn i ei wneud am Weithwyr sydd â Sensitifrwydd?

Os yw'r gwyladwriaeth iechyd yn gwneud i chi amau bod gweithiwr wedi datblygu sensitifrwydd, dylech:

- Dynnu'r person sydd wedi'i effeithio oddi ar y weithgaredd gwaith dan sylw.
- Cynghori'r person i ymgynghori â'i feddyg gan roi gwybodaeth iddynt am y gwaith y maent yn ei wneud a'r sylweddau y gallant fod wedi'u hanadlu i mewn.
- Adolygu eich asesiad/mesurau rheoli a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.
- Adrodd am y salwch i'ch Awdurdod Lleol – gweler y daflen ar Atal ac Adrodd ar Ddamweiniau.

Clefyd y Lleng Filwyr (Legionnaires' Disease)

Er bod nifer yr achosion o Glefyd y Lleng Filwyr yn parhau i fod yn gymharol isel, mae'r gyfradd marwoldeb uchel ymysg unigolion sy'n agored iddo mor uchel fel bod rheoli legionellosis yn ystyriaeth ddifrifol mewn adeiladau, yn enwedig adeiladau lle mae pobl oedrannus neu bobl sydd â nam ar eu system imiwnedd yn mynd iddynt.

Beth yw clefyd y lleng filwyr?

Math o niwmonia yw clefyd y lleng filwyr ac mae'n lladd rhwng 10-40% o'r bobl sy'n cael eu heintio ag ef. Mae dynion yn fwy tueddol o ddiodef o'r salwch na merched. Fel arfer, mae'n effeithio ar bobl canol oed neu oedrannus ac mae'n effeithio'n fwy cyffredin ar bobl sy'n ysmegu neu bobl sydd â phroblemau eraill ar y frest a phobl sydd â nam ar eu system imiwnedd.

Sut mae pobl yn dal y clefyd?

Mae pobl yn dal clwyf y lleng filwyr drwy fewnanadlu diferion bychan o ddŵr sydd yn yr aer, sy'n cynnwys y bacteria.

Gellir ffurfio erosols o'r diferion mân sy'n cael eu cynhyrchu gan ddŵr sy'n cynnwys bacteria legionella, er enghraifft, drwy redeg tap neu gawod, fflysio toiled neu o'r swigod sy'n codi o faddon 'whirlpool', pyllau hydrotherapi, jacuzzi, addurniadau dŵr yn yr ardd neu o dyrau oeri. Nid yw clefyd y lleng filwyr yn lledaenu o berson i berson.

Mae gan unrhyw system ddŵr sy'n cynhyrchu diferion bychan o ddŵr y potensial i ledaenu legionella.

Beth allwn ni ei wneud am hyn?

Mae'n bwysig adnabod unrhyw fannau lle y gall y bacteria dyfu a sicrhau bod mesurau rheoli digonol yn cael eu rhoi yn eu lle i leihau'r risg fod bacteria yn goroesi ac yn mynd i mewn i'r amgylchedd mewn diferion.

Mae'r bacteria yn fwy tebygol o dyfu:

- Mewn dŵr cynnes rhwng 20 - 45°C (y tymheredd optimwm yw 37°C)
- Lle mae ffynhonnell o faetholion ar gyfer y bacteria, e.e. Sleim (*biofilm*), rhwd, algâu a baw ar arwynebau pibelli a thanciau
- Mewn gwresogyddion dŵr/*calorifier* lle mae'r dŵr yn cael ei storio ar dymheredd sy'n is na 45°C
- Mewn pibelli heb fawr neu ddim llif dŵr o gwbl (mae hyn yn cynnwys ystafelloedd sydd ddim yn cael eu defnyddio)

Adnabod eich system


Dylech baratoi cynllun o'r system dŵr poeth ac oer yn yr eiddo, yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ar y safle. Os oes gennych chi adeilad hen iawn, efallai y bydd angen i chi ofyn i blymwr cymwys eich helpu.

Diweddarwch y diagram pan ddaw gwybodaeth newydd i law, neu pan fyddwch yn gwneud unrhyw newidiadau i'ch systemau dŵr.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi ar y diagram:


Lleoliad yr *header tank/s* (os oes rhai) a'r gwresogydd(ion) dŵr a sut mae'r rhain i gyd yn cysylltu â'r holl allfeydd dŵr (tapiau, pennau cawod ac ati) ar y systemau sy'n cael eu cyflenwi gan y gwresogydd dŵr poeth.

Gweler isod enghraifft o gynllun. Gosodwch eich cynllun eich hun ar y dudalen nesaf.



Peipen ddŵr oer

Peipen ddŵr poeth




Enghraifft: cynllun system dŵr poeth/oer

Cynllun o'r systemau dŵr poeth ac oer:

Enw'r Busnes:

Cyfeiriad yr eiddo

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Tanciau dŵr poeth ac oer		
<p>Dylai tymheredd dŵr yn y (bwyler) gael ei osod i gyrraedd o leiaf 60°C.</p> <p>Rhaid cadw dŵr oer yn is na 20°C bob amser.</p>	<p>Mae'r bacteria yn tyfu yn rhwydd mewn dŵr cynnes rhwng 20 - 45°C ac fe allant luosogi i niferoedd peryglus mewn ardaloedd lle y gall dŵr gasglu.</p> <p>Noder y bydd tymheredd uwch na 50°C yn y pibelli yn cynyddu'r risg o anafiadau sgaldio. Os yw eich tymheredd yn nesáu at 60°C, dylech ddarparu arwyddion rhybuddio ac ystyried defnyddio falfiau cymysgu thermostatig.</p>	<p>Ar ba dymheredd y mae eich bwylter(i) yn gweithredu?:</p> <div data-bbox="916 360 1465 651" style="border: 1px solid black; height: 130px; width: 100%;"></div> <p>Pa dymheredd yw'r dŵr yn eich tanc storio dŵr oer?</p> <div data-bbox="916 734 1465 909" style="border: 1px solid black; height: 78px; width: 100%;"></div>
<p>Gorchuddion neu gaeadau sy'n cau yn dynn ar bob tanc storio dŵr i atal halogiad gan falurion, pryfed a phla.</p> <p>Archwiliwch y tu mewn i danciau dŵr oer yn weledol i weld pa mor lân ydyn nhw bob blwyddyn, ynghyd â gwirio bod tymheredd y dŵr yn is na 20°C.</p>	<p>Dylid glanhau tanciau sydd â malurion ynddynt fel bo'r angen i atal y maetholion sydd ar gael i'r bacteria. Os yw tymheredd y dŵr yn uwch na 20°C, efallai y bydd angen i chi symud neu insiwleiddio'r tanc rhag gwres thermol.</p> <div data-bbox="475 1240 884 1816" style="text-align: center;">  <p>Tanc dŵr oer gydag algâu, rhwd a malurion</p> </div>	<p>Allwch chi gael mynediad at eich tanciau storio dŵr oer? Gallaf <input type="checkbox"/> Na allaf <input type="checkbox"/></p> <p>Pa mor aml ydych chi'n archwilio'r tanciau ac yn sicrhau nad oes malurion ynddynt?</p> <div data-bbox="916 1128 1465 1368" style="border: 1px solid black; height: 107px; width: 100%;"></div> <p>A oes caeadau sy'n ffitio'n dynn ar y tanciau storio dŵr? Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Os na, nodwch pa gamau sydd am gael eu cymryd.</p> <div data-bbox="916 1576 1465 1906" style="border: 1px solid black; height: 147px; width: 100%;"></div>

Pwynt diogelwch

Pam?

Sut ydych chi'n gwneud hyn?

Tymheredd dŵr poeth ac oer

Unwaith y mis, dylid cymryd cofnod o dymheredd dŵr poeth ac oer o'r tapiau sentinel ar gyfer pob system dŵr poeth ac oer.

Os, ar ôl un funud, bod y tymheredd yn is na 50°C dylid cynyddu thermostat y bwyler/ *calorifier*.

Os yw tymheredd y dŵr oer yn fwy na 20°C ar ôl dau funud o fflysio, bydd angen i chi edrych ar pam fod hyn yn digwydd a chael cyngor pellach.

Y tapiau sentinel yw'r rhai agosaf at y bwyler neu'r tanc dŵr oer a'r rhai sydd bellaf i ffwrdd.

Dalier sylw: Pan fo falfiau cymysgu thermostatig wedi'u gosod ar dapiau sy'n atal dŵr sy'n llai na 50°C gael ei ryddhau yna bydd angen i chi fesur tymheredd arwyneb y pibellau cyn y falf cymysgu.

Ble ydych chi'n cofnodi eich gwiriadau tymheredd misol?

A yw'ch tapiau dŵr oer yn cyflawni tymheredd isafswm o 20°C ar y pwynt pellaf ymhen 2 funud?

Ydy Na

Os 'na', pa gamau ydych chi wedi'u cymryd?

Allfeydd (*outlets*) sydd ddim yn cael eu defnyddio'n rheolaidd

Rhaid adnabod unrhyw allfeydd dŵr yn yr adeilad, gan gynnwys ardaloedd sydd wedi'u cau i ffwrdd a thapiau tu allan, a chadw cofnod llawn ohonynt.

Rhaid tynnu sylw at unrhyw allfeydd, gan gynnwys cawodydd a thapiau, na fyddant o bosib yn cael eu defnyddio ar unrhyw wythnos.

Rhaid fflysio pob un o'r allfeydd hyn am ddau funud bob wythnos a dylid cadw cofnod o hynny.

Os nad oes angen yr allfeydd yma ac os oes modd torri'n ôl ar y pibellau fel nad oes '*deadleg*' yn cael ei chreu, yna dylid cael gwared arnynt.

Mae *deadleg* yn rhan o'r bibell sy'n arwain at ffitiad, e.e. sinc, lle mae dŵr yn pasio drwyddo yn unig pan fo dŵr yn cael ei dynnu drwy'r ffitiad.

Bydd *deadlegs* neu systemau sydd ddim yn cael eu defnyddio yn achosi dŵr sefyll a thwf llwydni ac yn creu awyrgylch perffaith i facteria dyfu.



Oes gennych chi unrhyw allfeydd dŵr sydd ddim yn cael eu defnyddio'n aml? Oes Na

Rhestrwch yr allfeydd a'u lleoliad yma:

Pa mor aml ydych chi'n fflysio'r allfeydd yma?

Oes gennych chi *deadlegs*?

Oes Na

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Pennau Cawod		
<p>Dylai pob pen cawod gael eu tynnu, eu glanhau, digennu (os oes angen) a'u diheintio bob tri mis.</p> <p>Cadwch gofnod yn eich dyddiadur o'r dyddiadau pan gafodd y pennau cawod eu glanhau.</p>	<p>Mae pennau cawodydd yn cynhyrchu chwistrell mân ac erosol ac yn ffynhonnell ddelfrydol ar gyfer bacteria legionella.</p> <p>Hefyd, mae baw a llwydni yn gallu cronni ar bennau cawodydd ac mae hwn yn fwyd i facteria. Felly, mae'n bwysig glanhau pob pen cawod o leiaf bob tri mis.</p>	<p>Oes gennych chi unrhyw bennau cawod yn eich busnes? Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Pa mor aml ydych chi'n glanhau a diheintio pob pen cawod?</p> <div data-bbox="916 474 1465 712" style="border: 1px solid black; height: 100px; width: 100%;"></div> <p>Ble ydych chi'n cofnodi'r gwiriadau yma?</p>

Arferion Da

- Llithro a baglu
- Gweithio ar uchder
- Symud a thrin
- Trais ac ymddygiad ymosodol
- Staff yn gweithio'n unig
- Cludiant yn y gweithle
- Diogelwch peiriannau



Llithro a baglu

Llithro a baglu sy'n achosi'r mwyaf o ddamweiniau mewn unrhyw fusnes.

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
Dylid adeiladu lloriau, llwybrau cerdded a llwybrau traffig mewn deunyddiau addas a dylid eu cynnal a'u cadw'n dda. Er enghraifft, pan mae'n debygol y bydd y llawr yn mynd yn wlyb, dylid defnyddio llawr gwrth-lithro.	Gall arwynebau llawr anaddas, anwastad neu sydd wedi'u difrodi achosi i staff ac aelodau'r cyhoedd i lithro neu faglu, gan achosi anaf.	Mae lloriau a llwybrau cerdded yn cael eu gwirio gan: <input type="text"/> Mae lloriau a llwybrau cerdded yn cael eu gwirio bob: <input type="text"/>
Dylid cadw lloriau, llwybrau cerdded a llwybrau traffig yn glir, ac yn rhydd o unrhyw rwystrau.	Gall pobl syrthio dros focsys neu faglu ar geblau.	Dylid adrodd am ddifrod, peryglon baglu a chadw tŷ gwael wrth: <input type="text"/>
Dylid glanhau unrhyw arllwysiadau (<i>spillages</i>) ar unwaith a dylai staff wybod beth i'w wneud os oes unrhyw beth yn tywallt ar y llawr.	Gall pobl lithro ac anafu eu hunain ar loriau gwlyb a llithrig.	Ein gweithdrefn ar gyfer delio ag arllwysiadau yw: <input type="text"/>
Dylid glanhau lloriau gyda'r deunyddiau a'r offer cywir.	Gall defnyddio'r deunyddiau glanhau anghywir wneud i'r llawr fynd yn fwy llithrig neu ddifrodi'r llawr.	Mae rhestr o'n deunyddiau a lle y dylent gael eu defnyddio i'w weld ar y dudalen nesaf.
Dylai staff wisgo esgidiau addas, yn ddibynnol ar beth sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'u swydd.	Mae staff sy'n gweithio mewn ardaloedd lle nad oes modd cadw'r llawr yn sych yn fwy tebygol o lithro a dylent wisgo esgidiau gwrth-lithro. Os ydych yn rhoi esgidiau gwrth-lithro i staff, gwnewch yn siŵr eu bod yn eu gwisgo.	Ein polisi ar esgidiau yw: <input type="text"/>

Gweithio ar uchder

Syrthio o uchder sy'n achosi'r nifer mwyaf o farwolaethau yn y gweithle, ac fe all hyn gael ei atal yn rhwydd drwy gymryd camau rhagofalus syml.

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
<p>Yn ôl y gyfraith, mae angen i bob gwaith ar uchder lle y gallai anaf ddigwydd, gael ei asesu.</p> <p>Os ydych chi'n cyflogi contractwyr sy'n gweithio ar uchder, rhaid i chi ddweud wrthyn nhw am unrhyw broblemau mynediad neu broblemau eraill a allai effeithio ar eu diogelwch.</p> <p>Os ydych chi'n cyflogi mwy na 5 o bobl, rhaid i'r asesiad gael ei gofnodi.</p>	<p>Os na fyddwch chi'n asesu'r gwaith yn iawn, yna gallai rhai materion diogelwch gael eu hanwybyddu, ac yn y pen draw, fe allai hyn gyfrannu at rywun yn syrthio o uchder.</p> <p>Os oes contractwr yn cael damwain a bod hyn wedi'i achosi gan nad oeddech chi wedi dweud wrthyn nhw am unrhyw broblemau, yna fe allech chi fod yn atebol. Yn ogystal, os ydych chi'n eu gweld yn gwneud unrhyw beth y credwch chi sy'n beryglus, yna rhaid i chi ddweud wrthyn nhw.</p> <p>Mae'r gyfraith yn gofyn bod yr asesiad yn cael ei gofnodi os ydych chi'n cyflogi mwy na 5 person.</p>	<p>Oes unrhyw waith ar eich eiddo yn cynnwys gweithio ar uchder? h.y. newid bylbiau golau, storio eitemau ar silffoedd uchel?</p> <p>Oes Na</p> <p><input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/></p> <p>Ydych chi wedi gwneud asesiad? (Tudalen nesaf)</p> <p>Do Na</p> <p><input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/></p> <p>Os 'na', beth ydych chi wedi'i wneud?</p> <div style="border: 1px solid black; height: 60px; width: 100%;"></div>

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
<p>Gellir cyfiawnhau gweithio oddi ar ysgol os oes asesiad addas yn cael ei wneud, ar yr amod:</p> <ol style="list-style-type: none"> Bod y gwaith oddi ar ysgol yn cael ei wneud am gyfnod byr yn unig (dim mwy na 30 munud). Mae'r offer sy'n cael ei ddefnyddio oddi ar ben yr ysgol yn ysgafn (dim mwy na 10kg). Rhaid cadw tri phwynt cyswllt drwy gydol y gwaith. (Heblaw am gyfnod byr dros ben, h.y. newid bwlb golau). 	<ol style="list-style-type: none"> Mae lefelau canolbwyntio yn gostwng po hiraf y mae person yn gweithio ar ben ysgol. Mae pwysau ychwanegol yn achosi amodau gweithio ansefydlog a straen ychwanegol ar yr ysgol. I sicrhau'r sefydlogrwydd mwyaf a chael gwared ar unrhyw or-ymestyn. 	<p>Mae'r ysgolion yn cael eu storio mewn lle diogel. Ble?</p> <div style="border: 1px solid black; height: 20px; width: 100%;"></div> <p>Mae ysgolion yn cael eu gwirio'n rheolaidd am ddifrod.</p> <p>Gan</p> <div style="border: 1px solid black; height: 20px; width: 100%;"></div> <p>Mae'r ysgol yn addas ar gyfer y dasg. Cytunwyd gan</p> <div style="border: 1px solid black; height: 20px; width: 100%;"></div> <p>Rydych yn cyflogi contractwr i wneud gwaith ar uchder lle nad oes modd i asesiad risg gyfiawnhau'r dasg dan sylw. Cytunwyd gan</p> <div style="border: 1px solid black; height: 60px; width: 100%;"></div>

Beth arall sydd angen ei sicrhau?

- Bod unrhyw un sy'n defnyddio ysgolion neu *'kick stools'* yn ddigon galluog a ffit.
- Bod unrhyw un sy'n defnyddio ysgolion yn ddigon cymwys i wneud y gwaith a defnyddio'r ysgol.
- Bod ysgolion sy'n pwysu ar rywbeth yn cael eu diogelu'n iawn fel nad ydynt yn llithro neu'n cwmpo.
- Bod esgidiau addas yn cael eu gwisgo wrth ddefnyddio ysgolion.
- Bod yr ysgol yn cael ei symud bob tro, yn lle bod rhywun yn gor-ymestyn.

Canllawiau Asesu Risg Generig ar gyfer defnyddio ysgolion

Enw'r person sy'n cwblhau'r asesiad:.....

GWEITHGAREDD: Defnyddio ysgolion i gael mynediad neu yn y gweithle ar gyfer glanhau, cynnal a chadw, peintio, addurno, gwaith ar y nenfwd, gwaith trydanol, gwaith plymio, archwiliadau, gwaith yn yr ardd, ac ati.

Peryglon mwyaf cyffredin

GOR-YMESTYN	LLWYTHO I'R OCHR	COLLI CYDBWYSEDD
1. Ysgol yn mynd yn ansefydlog	e.e. Drilio	1. Defnyddiwr yn colli cydbwysedd
2. Gall y defnyddiwr neu'r tŵls syrthio	1. Defnyddiwr yn gwthio ei hun, yn colli cydbwysedd ac yn syrthio	2. Defnyddiwr yn cydio yn yr ysgol ac yn mynd yn ansefydlog
3. Gall y defnyddiwr neu'r tŵls daro rhywun islaw	2. Gallai'r defnyddiwr, yr ysgol neu'r tŵls daro rhywun islaw	3. Defnyddiwr, ysgol neu'r tŵls yn syrthio
		4. Defnyddiwr, ysgol neu'r tŵls yn taro rhywun islaw

Y bobl mewn perygl: Defnyddwyr ac eraill ar y safle

Mesurau rheoli (Rhaid ymateb naill ai 'Ydy'/'Oes'/'Ie'/'Bydd' i bob cwestiwn)

Ydy'r ysgol yn ddigon cryf ar gyfer y dasg?	YDY/NA
Ydy'r ysgol yn addas ar gyfer y dasg?	YDY/NA
Ydy'r ysgol yn medru cyrraedd yr uchder angenrheidiol?	YDY/NA
Ydy'r ysgol wedi cael ei harchwilio am ddifrod cyn iddi gael ei defnyddio ac ydy hi'n cael ei hystyried yn saff?	YDY/NA
Oes modd gosod yr ysgol yn ddiogel heb lithro neu syrthio?	OES/NA
Ydy'r esgidiau yn rhai addas i'w gwisgo wrth ddefnyddio ysgol?	YDY/NA
Ai dim ond un person fydd yn gweithio ar yr ysgol?	IE/NA
Ydy'r person sy'n defnyddio'r ysgol yn gymwys ac yn ffit?	YDY/NA
Amodau'r ddaear: (ydy'r ddaear yn gadarn, yn wastad ac yn sefydlog?)	YDY/NA
Ydy amodau'r tywydd yn golygu bod modd defnyddio'r ysgol yn ddiogel? (e.e. gwynt, glaw, eira, rhew, y tymheredd a'r haul)	YDY/NA
A fydd hyd y dasg heb seibiant yn llai na 30 munud?	BYDD/NA
Ydy'r risg o sioc drydanol wedi cael ei ystyried? (e.e. dim dargludydd BYW o fewn pellter peryglus)	YDY/NA
Ydy hi'n bosib cario deunyddiau, offer a thŵls, dringo'r ysgol a gweithio'n ddiogel a gafael yn yr ysgol ar yr un pryd?	YDY/NA
Oes modd gosod yr ysgol i osgoi gor-ymestyn a gweithio i'r ochr?	

OES/NA

Dylid archwilio offer, ffliwiau a phibellwaith a dyfeisiau diogelwch nwy yn rheolaidd yn unol ag argymhelliad y gweithgynhyrchwr.

Argymhellir bob 6 mis, ond o leiaf bob 12 mis, bod yr offer, ffliwiau, pibellwaith nwy ac ati, yn cael eu gwirio gan berson cymwys.

Os ydych chi'n berchennog ar gerbyd ac yn rhentu'r cerbyd i berson arall, yna rydych yn cael eich ystyried yn landlord. Rhaid i chi gael tystysgrif diogelwch nwy bob blwyddyn gan beiriannydd sydd wedi cofrestru â Gas Safe.

Mae'r Rheoliadau Nwy yn ei gwneud yn ofynnol i offer, ffliwiau, pibellwaith a dyfeisiau diogelwch nwy gael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel.

Dylent gael eu harchwilio gan berson cymwys yn rheolaidd. Rhaid i chi ddilyn argymhellion y gweithgynhyrchwyr neu siarad â'ch peiriannydd nwy.

Gwnewch nodyn yn eich **Log Cynnal a Chadw** neu yn eich dyddiadur am ba bryd y cafodd eich offer a'ch gwasanaethau nwy eu gwasanaethau ddiwethaf.

Nodwch pwy wasanaethodd yr offer a'r gwasanaethau nwy.

Os ddefnyddioch chi beiriannydd nwy, cadwch gopi o'ch tystysgrif gyda'ch cofnodion.

Os ddefnyddioch chi beiriannydd nwy, wnaethoch chi wirio eu bod wedi cofrestru â Gas Safe i weithio ar offer **arlwyo symudol**?

Do Na

The Best Mobile Gas Caterers

Gas Safe Registered number: 123456

<p>Services Provided: ?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Non-Domestic <p>Gas Type: ?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Natural Gas • LPG 	<p>Domestic area of work: ?</p>	<p>Non-domestic area of work: ?</p> <ul style="list-style-type: none"> [-] Catering <ul style="list-style-type: none"> • Commercial Catering Range Cookers NG • Commercial Catering Pressure/Expansion Boilers NG • Commercial Catering Fat & Pressure Fryers NG • Commercial Catering Fish & Chip Ranges NG • Mobile Catering Range Cookers LPG • Mobile Catering Fryers LPG • Mobile Catering Water Boilers LPG [+] Plant & Equipment
--	---------------------------------	---



Pwynt diogelwch

Pam?

Beth ydych chi'n ei wneud?

Lleoliad y Silindrau


Dylid lleoli silindrau neu danciau sydd wedi'u gosod ar gerbydau neu drelar mewn lleoliad sy'n lleihau'r risg o ddifrod mewn damwain ffordd ac lle bo modd, gael eu storio yn yr awyr agored.

Fel arall, gellir lleoli silindrau mewn lleoliad sydd wedi'i awyru'n dda ac wedi'u mowntio y tu allan i'r cerbyd neu mewn 'compartment' sydd wedi'i dorri i mewn i gorff y tu mewn i'r cerbyd ond sydd wedi'i selio o du mewn y cerbyd.

Dylai'r 'compartments', gan gynnwys y gwaelod, gael eu hadeiladu o ddeunyddiau sy'n rhoi gwrthedd tân am o leiaf 30 munud. Dylai'r uniadau atal tân er mwyn cynnal y safon gwrthedd tân.

I sicrhau bod y silindrau'n cael eu storio'n ddiogel ac nad ydynt yn achosi tân / ffrwydrad.

Ble mae eich silindrau'n cael eu storio wrth gael eu cludo?

<p>Rhaid i silindrau gael eu diogelu'n addas ar eu traed wrth iddynt gael eu cludo.</p> <p>Ni ddylid BYTH gadael poteli nwy ymlaen wrth iddynt gael eu cludo.</p>	<p>I'w hatal rhag symud wrth gael eu cludo.</p>	<p>Sut ydych chi'n diogelu eich silindrau ar eu traed?</p> <div data-bbox="1121 185 1479 344" style="border: 1px solid black; height: 70px; width: 100%;"></div> <p>Ydych chi'n gwneud yn siŵr bod y poteli nwy i ffwrdd wrth iddynt gael eu cludo? Ydw <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p>
<p>Rhaid i'r 'compartments' ar gyfer y silindrau fod â digon o awyriad drwy'r drws mynediad ar lefel uchel ac isel (nid oddi tano) un uniongyrchol i'r tu allan.</p> <p>Ni ddylai'r un fent fod yn llai na 1/100fed o ardal llawr y 'compartment'.</p> <p>Rhaid darparu'r fentiau hyn yn ychwanegol i'r ffenestri a'r drysau.</p> <p>Mae angen defnyddio sgriniau i atal plâu rhag cael mynediad atynt. Dylai'r rhain fod yn hygyrch i'w harchwilio a'u glanhau ac yn ddigon llydan i sicrhau nad oes gormod o lwch yn casglu.</p>	<p>Rhoi digon o awyriad ac i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.</p>	<p>Pa awyriad sy'n cael ei ddarparu i'r 'compartment' silindr nwy?</p> <div data-bbox="1139 680 1442 913" style="border: 1px solid black; height: 100px; width: 100%;"></div>
<p>Dylid cael mynediad i 'compartments' y silindrau o'r tu allan i'r cerbyd. Dylent gael eu dylunio fel bod modd cael mynediad rhwydd i newid silindrau a gwaredu silindrau yn gyflym mewn argyfwng.</p> <p>Gwnewch yn siŵr nad yw'r 'compartments' wedi cau ag ysbwriel neu eitemau eraill.</p> <p>Dylid atal mynediad anawdurdodedig pan nad oes rhywun yn goruchwilio'r cerbyd.</p> <p>Dylid gosod hysbysiad addas ar y tu allan i'r lleoliad neu'r 'compartment' gyda'r neges 'Caution LPG Highly flammable' arno.</p>	<p>I sicrhau y gellir cael at silindrau yn gyflym mewn argyfwng. Ni dylid cloi'r 'compartments' pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.</p> <div data-bbox="783 1218 1086 1429" style="text-align: center;">  <p>L.P.G. Highly Flammable No smoking or naked lights</p> </div> <p>I roi cyngor ar ddiogelwch i weithwyr ac aelodau'r cyhoedd.</p>	<p>Oes modd cael at y 'compartments' yn rhwydd o'r tu allan i'r cerbyd yn ystod masnachu? Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ydy'r tu allan i'r 'compartment' yn cael ei gadw'n glir bob amser? Ydy <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Pa arwyddion ydych chi'n eu harddangos?</p> <div data-bbox="1118 1406 1458 1644" style="border: 1px solid black; height: 100px; width: 100%;"></div>


Ffotograffau sy'n dangos arferion da ac arferion drwg



Dylid diogelu silindrau er mwyn eu hatal rhag symud wrth iddynt gael eu cludo.



Dylid darparu awyriad ar lefelau uchel ac isel.



Dylai hwn fod yn gwbl agored gyda gril iawn, gan nad yw'r tyllau yn rhoi digon o awyriad.



Awyriad yn cael ei ddarparu ar lefel isel yn unig.

Dim ar lefel uchel.






Mae tyllau wedi cael eu gwneud ar waelod y 'compartment' silindrau er mwyn cael awyriad. Hefyd nid yw'r silindrau wedi cael eu diogelu ar gyfer cael eu cludo.



Tyllau awyriad ar waelod 'compartment' y silindrau.

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
<p>Efallai y bydd silindrau wedi'u lleoli y tu allan i'r cerbyd pan mae'n cael ei ddefnyddio pan mae wedi'i barcio, cyhyd â'u bod gyferbyn â'r cerbyd ar dir cadarn a gwastad.</p> <p>Dylid lleoli silindrau i ffwrdd o fynedfeydd/allanfeydd a mannau cylchrediad.</p> <p>Dylech osgoi gosod y silindrau o dan agoriadau neu ger drysau, griliau awyru neu ffenestri y gellir eu hagor.</p> <p>Peidiwch â lleoli'r silindrau unrhyw le ger cerbydau sy'n pasio.</p> <p>Dylid cadw nifer y silindrau i'r isafswm sydd ei angen ar gyfer y nifer a'r math o offer sy'n cael ei wasanaethu. Dylai unrhyw silindrau wrth gefn sydd mewn stoc fod ar sail 1:1.</p>	<p>I sicrhau bod y poteli yn ddiogel.</p> <p>I'w hatal rhag cael eu taro drosodd yn ddamweiniol / cael eu difrodi neu bod rhywun yn tampro â nhw.</p> <p>I atal nwy rhag mynd i mewn i'r cerbyd.</p> <p>Gallai cerbydau sy'n pasio eu taro ar ddamwain ac achosi ffrwydrad.</p> <p>I leihau faint o nwy fflamadwy / ffrwydradwy sy'n cael ei storio ar unrhyw adeg.</p>	<p>Sut ydych chi'n gwneud yn siŵr bod eich silindrau'n cael eu cadw'n ddiogel ymhob digwyddiad?</p> <div data-bbox="1141 353 1481 510" style="border: 1px solid black; height: 70px; width: 100%;"></div> <p>Sut ydych chi'n storio'r silindrau wrth gefn a'r silindrau gwag?</p> <div data-bbox="1141 651 1481 842" style="border: 1px solid black; height: 85px; width: 100%;"></div>
<p>Ni ddylai unrhyw ffynhonnell danio fod o fewn 1m i'r tu allan i'r cerbyd. Er enghraifft, dylai drymiau olew, generaduron neu gerbydau fod o leiaf 1m i ffwrdd o'r cyflenwad nwy.</p>	<p>I atal ffrwydrad a thân.</p>	<p>Ar y cynllun atodol, marcwch y pellter rhwng eich cerbyd a'r ffynonellau tanio posib.</p> <p>Ymhob digwyddiad, gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried hyn wrth osod pethau i fyny. Cysylltwch â Rheolwr y Digwyddiad i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio.</p>
<p>Gwnewch yn siŵr bod silindrau LPG yn cael eu lleoli o leiaf 2 fetr i ffwrdd o ddraeniau neu orchuddion draeniau.</p> <p>Peidiwch byth â storio'r silindrau ger ffynhonnell wres neu mewn golau haul uniongyrchol. Peidiwch byth â storio silindrau y drws nesaf i sylweddau fflamadwy megis olew coginio.</p> <p>Peidiwch byth ag ysmegu ger y poteli nwy neu unrhyw ffynhonnell danio arall.</p> <p>Dylid darparu gwarchodaeth lle bo angen i atal pibellau egsôst rhag mynd yn ffynhonnell danio.</p>	<p>Mae anwedd LPG yn fwy dwys nag aer ac fe allai unrhyw ollyngiadau lifo ar hyd y ddaear i'r draeniau ac fe all gael ei danio ar bellter sylweddol o ffynhonnell y gollyngiad.</p> <p>Bydd gwres yn achosi i'r pwysedd y tu mewn i'r silindr i Gronni i lefel anniogel.</p> <p>Mae poteli nwy yn ffrwydradwy ac yn hynod fflamadwy.</p> <p>I atal tân rhag cynnau.</p>	<p>Lle mae eich silindrau'n cael eu storio pan mae'r fan yn cael ei defnyddio i fasnachu?</p> <div data-bbox="1141 1619 1481 2085" style="border: 1px solid black; height: 208px; width: 100%;"></div>

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
Cysylltiad diogel		
<p>Dylid lleoli rheoleiddwyr pwysedd, dyfeisiau 'change-over' awtomatig ac ati, mor agos â'r hyn sy'n ymarferol bosib at y silindr. Dylai'r cysylltiadau hyblyg fod mor fyr â phosib ond yn ddigon hir i ddarparu'r hyblygrwydd sydd ei angen heb roi straen gormodol ar y bibell neu'r ffitiadau.</p>  <p>Dylai'r dyfeisiau 'change over' ymgorffori falffiau 'non return' ar y fewnfa pwysedd uchel i atal nwy rhag gollwng wrth i chi newid silindrau.</p> <p>Dylid bod dangosydd ar ddyfeisiau 'change over' i ddangos pa bryd mae'r silindr wrth gefn yn cael ei ddefnyddio.</p> <p>Dylai dyfeisiau 'change over' fod â dangosydd ynghylch y silindr diwethaf a ddefnyddiwyd.</p>	<p>I leihau'r risg o ffrwydrad nwy.</p> <p>I gydymffurfio â'r safonau priodol.</p>	<p>Oes gennych chi ddyfais 'change over'?</p> <p>Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ddim yn siŵr <input type="checkbox"/></p> <p>Oes ganddo <i>non-return valve</i> yn yr <i>high pressure inlet</i>?</p> <p>Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ddim yn siŵr <input type="checkbox"/></p> <p>Oes dangosydd ar eich dyfais sy'n dangos pa bryd mae'r silindr wrth gefn yn cael ei ddefnyddio?</p> <p>Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Ddim yn siŵr <input type="checkbox"/></p>
<p>Dylech bob amser ddilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd wrth i chi gysylltu'r rheoleiddiwr pwysedd i'r silindr a pheidio ag agor falf y silindr na'r tap rheoleiddio hyd nes y mae'r rheoleiddiwr pwysedd wedi'i osod yn ddiogel.</p> <p>Ni ddylech fyth ddefnyddio tŵls i droi falffiau'r silindrau ymlaen neu i ffrwrdd.</p> <p>Peidiwch byth ag ysmegu na defnyddio eich ffôn symudol wrth gysylltu'r offer.</p>	<p>I sicrhau bod y nwy yn cael ei gyflenwi ar y pwysedd cywir.</p> <p>Gallant ddifrodi'r falffiau ac achosi arllwysiad nwy.</p> <p>Gallai unrhyw sbarc danio'r nwy ac achosi tân neu ffrwydrad.</p>	<p>Pa gyfarwyddiadau /hyfforddiant ydych chi'n ei roi i'ch staff ar sut i gysylltu eich silindrau?</p> <div data-bbox="1123 1518 1465 1809" style="border: 1px solid black; height: 130px;"></div>
<p>Edrychwch ar 'washer' y rheoleiddiwr pwysedd neu'r falf cyn i chi gysylltu pob silindr newydd. Os yw'r rwber yn edrych fel ei fod wedi gwisgo neu wedi'i ddifrodi, dylech osod un newydd neu gysylltu â'r cyflenwr.</p> <p>Pan nad yw'r offer yn cael ei ddefnyddio, diffoddwch y tap rheoleiddio.</p>	<p>I leihau faint o nwy sy'n dianc.</p> <p>Fel nad oes nwy yn cael ei ryddhau yn ddiangen a'r posibilrwydd bod Carbon Monocsid yn cronni.</p>	<p>Ydych chi'n arddangos y cyfarwyddiadau hyn ger y silindrau?</p> <p>Ydw <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p>

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
Pibellau		
<p>Rhaid i'r pibellau hyblyg gael eu cynhyrchu i safon BS3212 math 2. Gellir gweld hyn wedi'i ysgrifennu ar y pibellwaith. Rhaid defnyddio pibellau pwysedd uchel math 2 cyn y rheoleiddiwr. Holl bibellwaith wedi'i labelu yn nodi'r pwysedd, y Safon Brydeinig (BS) a'r dyddiad cynhyrchu.</p>  <p>Rhaid cael pibellau newydd cyn gynted ag y maent yn dangos arwyddion o wisgo, heneiddio, difrod, hindreulio neu graciau.</p> <p>Argymhellir bod pibellau yn cael eu newid bob 2 flynedd neu pan welir arwyddion o wisgo a difrod.</p> <p>Rhaid i bibellau sy'n cario nwy o silindrau i reoleiddwyr gael cysylltiadau dolennog ac ni ellir eu defnyddio â chrimpiâu cartref yn unig.</p>	<p>I atal nwy rhag gollwng.</p> <p>Bydd pibellau sydd wedi'u difrodi yn achosi i nwy ddianc ac fe allai achosi tân neu ffrwydrad.</p> 	<p>Pa wybodaeth sydd ar eich pibellau?</p> <div data-bbox="1112 353 1449 645" style="border: 1px solid black; height: 130px;"></div> <p>Pa mor aml ydych chi'n amnewid eich pibellau?</p> <div data-bbox="1112 801 1437 1137" style="border: 1px solid black; height: 150px;"></div>
<p>Ni ddylai'r cysylltiad rhwng y silindr nwy a'r rheoleiddiwr fod yn hirach nag 1m.</p> <p>Pan fwriedir i offer gael ei gysylltu â silindr gyda phibell hyblyg, ni ddylai'r bibell fod yn hirach na 1m.</p> <p>Dylid gwarchod pibellau rhag difrod mecanyddol a gormod o wres. Ni ddylent gael eu gosod dan lawr dros dro.</p> <p>Os ydych angen i hyd y bibell fod yn fwy na 1m o hyd, yna rhaid i chi ddefnyddio pibell gopr.</p>	<p>I atal difrod i'r pibellau ac unrhyw debygolrwydd o ollyngiadau. Hefyd, gallai pibellau hirach achosi peryglon baglu.</p> <p>I atal difrod gwres a gollyngiadau nwy.</p>	<p>Beth yw hyd cysylltiad eich pibellwaith rhwng y silindr nwy a'r rheoleiddiwr?</p> <div data-bbox="1123 1473 1471 1597" style="border: 1px solid black; height: 55px;"></div> <p>Beth yw hyd y bibell hyblyg rhwng y silindr a'r offer?</p> <div data-bbox="1123 1720 1471 1843" style="border: 1px solid black; height: 55px;"></div> <p>Ydych chi'n defnyddio pibellau copr? Ydw <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p>

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
Offer		
<p>Rhaid i offer gael eu cymeradwyo i gael eu defnyddio â LPG.</p> <p>Hefyd, rhaid cael marc CE arnynt.</p>	<p>I sicrhau eu bod yn saff i'w defnyddio.</p>	<p>Ydy'r holl offer sydd gennych wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio â LPG ac a oes marc CE arnynt? Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p>
<p>Rhaid i offer gael llosgwyr sydd wedi'u gwarchod gan ddyfeisiau goruchwyllo fflam.</p> <p>Nid oes angen rhain ar gyfer platiau poeth poptai domestig a llosgwyr gril.</p>	<p>I warchod unigolion wrth danio'r offer.</p> <p>Mae digwyddiadau ffrwydrol wedi digwydd yn sgil yr oedi rhwng rhoi'r nwy ymlaen a gweithredu'r ffynhonnell danio. Mae hyn yn galluogi i ddigon o nwy Gronni yn y popty a thanio'n ffrwydrol.</p>	<p>Oes dyfeisiau goruchwyllo fflam (dyfeisiau methiant fflam) ar eich offer? Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Os na, sut ydych chi'n tanio eich offer yn ddiogel?</p> <div data-bbox="1070 723 1474 889" style="border: 1px solid black; height: 74px; width: 100%;"></div>
<p>Dylid gosod yr offer yn ddiogel ar sail gadarn 'non combustible heat insulating base'.</p> <p>Dylid gosod offer arlwygo nwy yn ddigon pell o ddeunyddiau fflamadwy megis cynfas pabell neu sgriniau.</p> <p>Dylid gosod offer fel nad ydynt yn blocio llwybrau neu allanfeydd.</p> <p>Gosodwch eich offer fel nad oes modd i bobl anawdurdodedig dampro â nhw.</p>	<p>I atal symudiad pan fo'r cerbyd yn symud.</p> <p>I osgoi iddynt gael eu tanio'n anfwriadol.</p> <p>I atal damweiniau.</p>	<p>Nodwch leoliad yr offer ar y cynllun atodol.</p> <p>Ydych chi'n sicrhau bod yr holl offer arlwygo wedi'u gosod i ffwrdd o ddeunyddiau fflamadwy bob amser? Ydw Na</p> <p>Ydy'ch offer yn blocio llwybrau neu allanfeydd? Ydy Na</p> <p>Ydych chi'n gwneud yn siŵr bod yr holl offer wedi'u diffodd a bod y cyflenwad newydd wedi'i ddiffodd ar y silindr pan mae'r cerbyd yn symud? Ydw <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p>

<p>Dylai bod fflw ar oergelloedd wedi'u pweru gan LPG.</p> <p>Dylid darparu awyriad ychwanegol yn llawr y cerbyd yn union o dan yr oergell.</p> <p>Ni ddylai unrhyw offer nwy fod yn weithredol pan mae'r cerbyd yn symud. Er mwyn iddo weithredu drwy'r amser, rhaid i'r oergell fod yn un sydd â chyflenwad gwres trydan amgen sy'n cael ei gyflenwi gan fatri yn y cerbyd.</p>	<p>I gydymffurfio â'r safonau priodol.</p> <p>I atal drafftiau a allai ddiffodd fflam y 'burner' bychan.</p> <p>I atal tân / ffrwydrad.</p>	<p>Oes gennych chi oergell wedi'i pweru gan nwy? Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Os oes:- Oes gennych chi fflw? Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Pa awyriad sy'n cael ei ddarparu ar gyfer yr oergell?</p> <div style="border: 1px solid black; height: 80px; width: 100%;"></div>
--	---	---

Pwynt diogelwch	Pam?	Sut ydych chi'n gwneud hyn?
-----------------	------	-----------------------------

Gwresogyddion dŵr		
<p>Dylid darparu fflwiau fel yr argymhellir yng nghyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr.</p> <p>Dylai gwresogyddion dŵr fod yn 'room sealed' os yw'n bosib.</p> <p>Mae angen i wresogyddion dŵr fflw agored a di-fflw gael awyriad digonol yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Fel arfer, mae hyn yn cael ei ddarparu gan fentiau aer. Nid yw agor tu blaen yr uned symudol yn awyriad addas gan y gellir defnyddio'r offer gyda'r uned ar gau.</p> <p>Dylid gosod dyfais goruchwyllo fflam ar offer.</p>	<p>I gydymffurfio â'r Safon Brydeinig (BS).</p> <p>Mae gwresogyddion 'room sealed' yn cael aer ar gyfer hylosgi o'r tu allan ac mae cynnyrch hylosgi yn cael eu rhyddhau yn uniongyrchol i'r tu allan.</p> <p>Mae gwresogyddion fflw agored yn tynnu aer o'r tu mewn i'r uned symudol ac yn gwagio drwy fflw i'r tu allan.</p> <p>Mae gwresogyddion dŵr di-fflw (os y dewch ar eu traws) yn tynnu aer o'r tu mewn i'r uned symudol ac yn gollwng eu cynnyrch i'r ardal o amgylch. Byddai methiant fflw agored yn golygu bod y cynnyrch hylosgi yn cael ei wagio y tu mewn i'r uned symudol.</p> <p>I hylosgi'n iawn a chael gwared ar unrhyw debygolrwydd y bydd Carbon Monocsid (CO) yn cronni.</p> <p>I gydymffurfio â'r safonau priodol.</p>	<p>A oes fflw ar y gwresogydd dŵr? Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Os na, beth yw'r cyngor yng nghyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr?</p> <p>Ydy'r gwresogydd dŵr yn un 'room sealed'? Ydy <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p> <p>Pa awyriad sy'n cael ei ddarparu yn eich cerbyd?</p> <p>Oes dyfais goruchwyllo fflam ar y gwresogydd dŵr? Oes <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p>

Generaduron Trydanol sy'n cael eu pweru gan LPG

Os oes gennych rywle penodol wedi'i adeiladu yn y cerbyd ar gyfer storio generadur, mae angen cael mynediad ato o'r tu allan, bod yn wrth-dân, a chael awyriad ar lefelau uchel ac isel. Hefyd, efallai bod angen cyflenwad nwy ar wahân ar gyfer y generadur.

Gwnewch yn siŵr nad yw'r pibellau nwy sy'n cael eu defnyddio i gysylltu'r generadur yn ddim hirach na 1.5m.

Rhaid i'r holl gysylltiadau a gosodiadau trydanol fod yn unol â rheoliadau cyfredol IEE (BS7671)

I gydymffurfio â'r safonau priodol.

Ydych chi'n defnyddio generadur trydanol?
Ydw Na

Ble mae'n cael ei storio?

Oes arno angen cyflenwad nwy?

Oes Na

Pwynt diogelwch

Pam?

Sut ydych chi'n gwneud hyn?

Gweithdrefnau Argyfwng

Argymhellir cael gweithdrefn wedi'i dogfennu sy'n egluro beth i'w wneud mewn argyfwng, gyda rhifau ffôn cyswllt defnyddiol.

Rhaid i chi arddangos hysbysiadau ar beth i'w wneud mewn argyfwng, e.e. gollyngiadau nwy a tân.



Pan fo cyflenwad propan swmp o fwy na 2 silindr gyda dyfais 'change over' manifold neu awtomatig yn cael ei ddefnyddio, dylid darparu 'shut off' argyfwng gael ei darparu ar y fewnfa i'r cyflenwad cyffredin.

Rhaid i'r holl staff arlwygo sy'n defnyddio'r offer nwy gael eu hyfforddi ar sut i'w ddefnyddio'n briodol a sut i wneud gwiriadau gweledol am ddiffygion amlwg.

PEIDIWCH â defnyddio fflam foel wrth chwilio am ollyngiadau nwy.

Dylai diffoddwr tân 1 x 5kg powdr sych fod ar gael ar gyfer y 2 x silindr a ddefnyddir. Gosodwch eich offer diffodd tân mewn man amlwg.

Os ydych yn ffrio bwyd, yna byddwch hefyd angen blanced dân.

Os ydych yn ffrio saim dwfn, mae angen diffoddwr tân ewyn 9litr neu Fry Fighter.

Pan fo tân:

- Gweithredwch ar unwaith a ffoniwch y frigâd dân, a dywedwch wrthynt bod LPG yn bresennol.
- Cau'r holl falfiau ar y silindrau.
- Cadw silindrau'n oer drwy ddefnyddio chwistrell dŵr os yn bosib.

I wneud yn siŵr bod yr holl staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac fel eu bod yn gwybod sut i ddiffodd y cyflenwad nwy.

Bydd yr hysbysiad yn atgoffa staff o beth i'w wneud mewn argyfwng.



Falf Rheoli Argyfwng

Dylid gosod hysbysiad diogelwch ar sut i gysylltu a datgysylltu'r poteli LPG y drws nesaf i'r storfa poteli nwy.

I sicrhau y gallant ganfod unrhyw arwyddion o ddifrod a rhoi eich gweithdrefnau argyfwng ar waith.

Bob bydd, dylai staff wirio:

- Gwiriad gweledol o'r silindrau, pibellwaith, ffliwiau a fentiau.
- A oes arogl nwy? — mae arogl nodedig ar LPG.
- Gallai rhew neu ddisgleirio fod yn arwydd o ollyngiad nwy.
- Gwiriwch y cysylltiadau am ollyngiadau gan ddefnyddio hylif dŵr sebon (gellir gweld swigod os yw'r uniadau/pibell yn gollwng).
- Oes yna ddifrod i'r pibellwaith neu'r cysylltiadau?
- Ydy'r offer wedi'u clymu'n ddiogel yn y cerbyd?
- Ydy'r offer wedi'u diffodd pan mae'r cerbyd yn symud a'r cyflenwad nwy wedi'i ddiffodd ar y silindr?
- Ydy ansawdd y fflam yn dda?

Beth yw eich gweithdrefn argyfwng pan fo nwy yn gollwng?

Pa hysbysiadau ydych chi'n eu harddangos?

Pa hyfforddiant ydych chi'n ei roi i'ch staff?



Cynllun o osodiad eich digwyddiad

Tynnwch lun o leoliad eich holl offer, gan gynnwys lleoliad y fynedfa/allanfa ac unrhyw fewnfa aer ychwanegol. Dangoswch leoliad eich poteli nwy a'ch offer diffodd tân. Nodwch leoliad eich falffiau 'change over' a'r Rheolydd Argyfwng os yn berthnasol.

Gwiriadau Diogelwch Nwy Arlwyo Allanol

Rhestr Wirio wrth Agor

Silindrau Nwy:

Ydy'ch silindrau nwy wedi'u storio mewn ardal sydd wedi'i hawyru'n dda y tu allan i'r marquee/pabell? Y/N

Os Na, oni bai bod gennych silindr butane sengl, rhaid i chi eu symud i'r ardal y tu allan.

Ydy'ch silindrau ar eu traed, ar sylfaen galed gadarn a gwastad? Y/N

Ydy'r silindrau wedi'u lleoli i ffwrdd o fynedfeydd/allanfeydd ac ardaloedd cylchredeg? Y/N

Ydy'r silindrau i ffwrdd o unrhyw ffynhonnell wres? Y/N

Ydy'r silindrau'n cael eu cadw'n glir o ysbwriel/malurion eraill? Y/N

Ydy'r silindrau o leiaf 2m i ffwrdd o ddraeniau/gorchuddion draeniau? Y/N

Ydy drymiau olew/deunyddiau fflamadwy eraill yn cael eu storio i ffwrdd o'r silindrau Y/N

Pibellau:

Ydy'r pibellau hyblyg wedi'u labelu â BS3212/BSEN1763? Y/N

Ydy'r pibellau hyblyg yn llai na 2 oed? Y/N

Ydy'r pibellau hyblyg mewn cyflwr da? Y/N

Ydy clipiau'r bibell yn addas ac mewn cyflwr da? Y/N

Ydy'r rheoleiddiwr wedi'i labelu â BS3016 neu BSEN12864? Y/N

Ydy hyd y bibell o'r rheoleiddiwr i'r offer yn ddim mwy na 1m? Y/N

Ydych chi wedi gwirio cysylltiadau'r bibell â dŵr sebon? D/N

Rheoli:

Ydych chi wedi rhoi hyfforddiant diogelwch nwy i'ch holl weithwyr? Y/N

Ydych chi'n gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ysmegu ger y silindrau? Y/N

Oes gennych chi weithdrefnau argyfwng yn eu lle? O/N

Oes gennych chi gopi o'ch gweithdrefnau argyfwng ar y safle? O/N

Oes modd i'r gwasanaethau brys gael mynediad at y silindrau? O/N

Ydych chi wedi arddangos yr arwyddion priodol? D/N

Rhestr Wirio wrth Gau

Ydych chi wedi diffodd y nwy i'r holl offer? D/N

Ydy'ch poteli nwy wedi'u storio'n ddiogel ac mewn ffordd lle nad oes modd tampro â nhw? Y/N

Ydych chi wedi cael gwared ar silindrau gwag a'u storio'n ddiogel? D/N

Ydych chi wedi tynnu'r holl gardfwrdd ac ysbwriel (gan gynnwys olew) o'ch uned? D/N

Os ydych yn ateb **Na** i unrhyw un o'r cwestiynau yna rhaid i chi weithredu.
Darllenwch weddill y nodyn canllaw am gymorth.

Dull Diogel: Diogelwch Nwy mewn Arlwyyo Allanol

Mae LPG yn fflamadwy. Rhaid ei storio i ffwrdd o ffynonellau tanio mewn ardal wedi'i hwyru'n dda. Mae camddefnyddio LPG yn hynod beryglus. Rhaid trin LPG gyda pharch – gall fynd yn ffrwydrol.

Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
Gofynion Diogelwch Nwy		
<p>Dim ond gosodwr sydd wedi cofrestru â Gas Safe ddylai osod a thrwsio offer a gwasanaethau nwy.</p> <p>Rhaid i beirianwyr fod â chymwysterau addas i weithio ar Offer Arlwyyo Symudol.</p> <p>Gwiriwch os yw'ch peiriannydd wedi cofrestru ar www.gassaferegister.co.uk neu cysylltwch ar 0800 4085500. Gallwch wirio gan ddefnyddio eu rhif ID neu enw eu busnes neu'r cod post.</p>	<p>Os nad yw'r offer neu'r gwasanaethau wedi'u gosod yn iawn, gallai nwy ddianc neu ddŵr ollwng neu fe all yr offer ollwng mygdarth gwenwynig yn y gweithle.</p>	<p>Pa bryd gafodd eich offer a phibellwaith nwy eu gosod?</p> <p>Pwy osododd eich offer?</p> <p>Wnaethoch chi wirio os yw eich peiriannydd nwy wedi cofrestru gyda Gas Safe i weithio ar offer arlwyyo symudol? Do <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p>
<p>Dylid archwilio offer, ffliwiau, pibellwaith a dyfeisiau diogelwch nwy yn rheolaidd, yn unol ag argymhelliad y gweithgynhyrchwr.</p>	<p>Mae'r Rheoliadau Nwy yn gofyn fod yr holl offer, ffliwiau, pibellwaith a dyfeisiau diogelwch nwy yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel.</p> <p>Dylent gael eu harchwilio gan berson cymwys yn rheolaidd. Rhaid i chi ddilyn argymhellion y gweithgynhyrchwr neu siarad â'ch peiriannydd Gas Safe.</p>	<p>Nodwch yn y Log Cynnal a Chadw neu yn eich dyddiadur pa bryd gafodd eich offer a'ch gwasanaethau nwy eu gwasanaethu ddiwethaf.</p> <p>Nodwch pwy wnaeth y gwasanaethu nwy i chi.</p> <p>Os ddefnyddioch chi beiriannydd nwy, cadwch gopi o'ch tystysgrif gyda'ch cofnodion.</p> <p>Os ddefnyddioch chi beiriannydd Nwy, wnaethoch chi wirio eu bod wedi cofrestru â Gas Safe i weithio ar offer Arlwyyo Symudol? Do <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/></p>



Pwynt diogelwch	Pam?	Beth ydych chi'n ei wneud?
Lleoli Silindrau		
<p>Gwnewch yn siŵr bod silindrau LPG yn cael eu gosod o leiaf 2m i ffwrdd o ddraeniau neu orchuddion draeniau.</p> <p>Peidiwch byth â storio'r silindrau ger ffynhonnell wres neu mewn golau hau uniongyrchol. Peidiwch byth â storio silindrau ger sylweddau fflamadwy, megis olew coginio.</p> <p>Peidiwch byth ag ysmegu ger y poteli nwy neu ger unrhyw ffynhonnell danio arall.</p> <p>Gwnewch yn siŵr y gall y Gwasanaethau Brys gael mynediad at y silindrau mewn argyfwng.</p>	<p>Mae anwedd LPG yn ddwysach nag aer ac fe allai unrhyw ollyngiadau lifo ar hyd y ddaear ac i'r draeniau ac fe allai danio gryn bellter i ffwrdd o ffynhonnell y gollyngiad.</p> <p>Bydd gwres yn gwneud i'r pwysedd y tu mewn i'r silindr godi i lefel anniogel.</p> <p>Mae poteli nwy yn ffrwydrol ac yn hynod fflamadwy.</p> <p>I stopio tân neu ollyngiad nwy cyn gynted â phosib.</p>	<p>Ble ydych chi'n storio eich silindrau?</p>
<p>Dylid gosod silindrau o leiaf 1 metr, wedi'i fesur yn llorweddol, o unrhyw agoriad awyru neu 'compartment' hygyrch mewn unrhyw adeiladau neu strwythurau parhaol neu dros dro cyfagos, neu rhag ffynonellau tanio posib eraill.</p> <p>Dylid gosod silindrau propan yn yr awyr agored ac nid y tu mewn i marquees, pabelli neu rywle arall sydd wedi'i amgáu.</p> <p>Gellir lleoli silindrau Butane sengl y tu mewn i marquee, pabell neu rywle arall sydd wedi'i amgáu ar yr amod eu bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ond yn cyflenwi un darn o offer • Yn cael eu gosod drws nesaf i'r offer, ond ddim yn agored i wres sy'n dod o'r offer • Yn cael eu gosod yn briodol fel bod modd cael mynediad rhwydd at falf y silindr • Yn cael eu cadw ar eu traed ar lain galed gadarn • Yn cael eu cadw draw o storfa ysbwriel, cardfwrdd neu ddeunydd fflamadwy arall. 	<p>I roi digon o awyriad ac atal y silindrau rhag cael eu taro drosodd.</p>	<p>Pa fath o silindrau nwy ydych chi'n eu defnyddio? Propan <input type="checkbox"/> Butane <input type="checkbox"/></p> <p>Ydych chi'n storio'r silindrau: <input type="checkbox"/></p> <p>Y tu mewn i'r babell / marquee <input type="checkbox"/> neu y tu allan? <input type="checkbox"/></p> <p>Sawl silindr sydd gennych ymhob digwyddiad?</p> <div style="border: 1px solid black; height: 100px; width: 100%;"></div>
<p>Dylid gosod silindrau ar eu traed ar lain galed, gadarn a gwastad. Rhaid i chi wneud yn siŵr nad oes modd i'r silindrau syrthio na chael eu fandaleiddio. Dylech ystyried diogelu'r silindrau.</p>	<p>I atal gollyngiadau nwy o bibellwaith neu danciau sydd wedi'u difrodi.</p>	<p>Sut ydych chi'n sicrhau bod eich silindrau'n cael eu storio'n gywir ymhob digwyddiad?</p> <div style="border: 1px solid black; height: 100px; width: 100%;"></div>

Os nad oes strwythur cadarn ac addas ar gael felly fe allech ddefnyddio postyn dros dro wedi'i sincio i'r ddaear i roi cefnogaeth i'r silindr.

Dylid lleoli silindrau i ffwrdd o fynedfeydd/allanfeydd ac ardaloedd cylchredeg.

Dylid cadw nifer y silindrau sy'n cael eu storio i'r isafswm sydd ei angen ar gyfer math a nifer y darnau o offer a wasanaethir. Dylai unrhyw silindrau wrth gefn mewn stoc fod ar sail 1:1.

Ble ydych chi'n storio'r silindrau wrth gefn a'r rhai gwag?

Pwynt diogelwch

Pam?

Beth ydych chi'n ei wneud?

Cysylltiad diogel

Dylid lleoli rheoleiddwyr pwysedd, dyfeisiau 'change over' awtomatig ac ati, mor agos â'r hyn sy'n ymarferol bosib at y silindr. Dylai'r cysylltiadau hyblyg fod mor fyr ag sy'n ymarferol bosib ond bod yn ddigon hir i roi'r hyblygrwydd sydd ei angen heb roi gormod o straen ar y bibell neu'r ffitiadau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r rheoleiddiwr cywir ar gyfer y math o nwy dan sylw.

Dylech wastad ddilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd wrth gysylltu'r rheolydd pwysedd i'r silindr a pheidiwch ag agor falf y silindr na thap y rheolydd hyd nes bod y rheoleiddiwr pwysedd wedi'i osod yn ddiogel.

Ni ddylid byth ddefnyddio tŵls i droi falfiau'r silindrau ymlaen neu i ffwrdd.

Peidiwch byth ag ysmegu neu ddefnyddio eich ffôn symudol wrth gysylltu'r offer.

Edrychwch ar *washer* y rheoleiddiwr pwysedd neu'r falf cyn cysylltu pob silindr newydd. Os yw'r rwber yn edrych fel ei fod wedi gwisgo neu wedi'i ddifrodi, dylech gael un newydd neu gysylltu â'ch cyflenwr.

Pan nad yw'r offer yn cael ei ddefnyddio, dylech ddiffodd y tap rheoleiddio.

I leihau'r risg o ffrwydrad nwy.

Mae rheoleiddwyr pwysedd wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer naill ai propan neu butane i sicrhau eu bod yn rheoleiddio'r pwysedd pan fo'r tymheredd yn newid.

I sicrhau bod y nwy yn cael ei gyflenwi ar y pwysedd cywir.

Gallant ddifrodi'r falfiau ac achosi gollyngiad nwy.

Gallai unrhyw sbarc danio'r nwy ac achosi tân neu ffrwydrad.

I leihau'r nwy sy'n dianc.

I atal rhyddhad nwy yn ddiangen a'r posibilrwydd bod Carbon Monocsid yn cronni.

Disgrifiwch beth ydych chi'n ei wneud:

Pa gyfarwyddiadau ysgrifenedig ydych chi'n eu rhoi i'ch staff?

Dylid gosod arwyddion sy'n nodi: 'EXTREMELY FLAMMABLE LPG. NO SMOKING. NO NAKED LIGHTS'.



I roi cyngor ar ddiogelwch i staff ac i aelodau'r cyhoedd.

Pa arwyddion ydych chi'n eu harddangos?

Ni ddylid storio ysbwriel, cardfwrdd neu ddeunydd fflamadwy arall ger y silindrau LPG. Argymhellir cael rhwystr ffisegol sy'n gwarchod y gofod sydd o amgylch y silindrau.

I atal tân rhag digwydd.

Ydych chi'n cadw'r ardal o amgylch y silindr yn rhydd o ysbwriel, cardfwrdd a deunyddiau fflamadwy eraill?

Ydw Na

Pwynt diogelwch

Pam?

Sut ydych chi'n gwneud hyn?

Pibellau

Rhaid i'r pibellau hyblyg gael eu gweithgynhyrchu i safon BS3212 math 2. Gellir dod o hyd i hwn wedi'i ysgrifennu ar y pibellwaith.

I atal gollyngiadau nwy.

Pa wybodaeth sydd ar eich pibellau?

Rhaid newid pibellau cyn gynted ag y maent yn arddangos arwyddion o wisgo, heneiddio, difrod, hindreulio neu graciau.

Bydd pibellau wedi'u difrodi yn gadael i nwy ddianc ac fe allai achosi tân neu ffrwydrad.

Pa mor aml ydych chi'n newid eich pibellau?

Dylid newid pibellau bob 2 flynedd neu pan mae arwyddion o wisgo a difrod i'w gweld.



Rhaid i bibellau sy'n cario nwy o silindrau i reoleiddwyr gael cysylltiadau ffatri wedi'u dolennu ac ni ellir eu defnyddio a chrimpiau cartref yn unig.

Rhaid defnyddio pibellau pwysedd uchel math 2 cyn y rheoleiddiwr. Mae pob pibellwaith wedi'i labelu gyda'r pwysedd, y Safon Brydeinig (BS) a'r dyddiad cynhyrchu.

Ni ddylai'r cysylltiad rhwng y silindr nwy a'r rheoleiddiwr fod yn hirach na 1m.

Pan mae bwriad i offer gael ei gysylltu i silindr gyda phibell hyblyg, ni ddylai'r bibell fod yn fwy na 1m o hyd.

Dylid gwarchod pibellau rhag difrod mecanyddol a gwres eithafol. Ni ddylid eu gosod o dan lawr dros dro.

Pan fo offer yn cael ei gysylltu i silindr gyda phibell hyblyg, dylid profi pob uniad am ollyngiadau drwy eu brwsio â dŵr sebon neu hylif canfod gollyngiad cyn ei ddefnyddio. Hefyd dylid gwirio'r cysylltiad rhwng y silindr a'r rheoleiddiwr.

Bob tro y mae cysylltiadau'r silindr yn cael eu torri a'u hail-wneud, dylid gwirio'r uniadau am ollyngiadau.

I atal difrod i'r pibellau a'r tebygolrwydd o ollyngiadau. Hefyd, gallai pibellwaith hirach achosi peryglon baglu.

I atal difrod gwres a gollyngiadau nwy.

I ganfod gollyngiadau, os oes swigod yn codi o'r sylwedd, mae rhywbeth yn gollwng.



I sicrhau nad yw'r cysylltiad yn gadael i nwy ddianc.

Beth yw hyd cysylltiad eich pibellwaith rhwng y silindr nwy a'r rheoleiddiwr?

Beth yw hyd eich pibell hyblyg rhwng y silindr a'r offer?

Oes unrhyw un o'ch pibellau angen cael eu gwarchod rhag gwres, e.e. defnyddio pibellau *braided* neu *armoured*?

Oes Na

Sut ydych chi'n profi am ollyngiadau?

Pryd ydych chi'n profi am ollyngiadau?

Pwynt diogelwch

Pam?

Sut ydych chi'n gwneud hyn?

Offer

Rhaid i chi drin silindrau gwag fel rhai llawn a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu storio'n ddiogel.

Efallai bod anwedd LPG yn dal i fod mewn silindrau gwag ac fe allai fod yn beryglus.

Sut ydych chi'n storio eich silindrau gwag?

Dylid gosod offer yn ddiogel ar sail gadarn *non combustible heat insulating base*.

Dylid gosod offer arlwyyo nwy yn ddigon pell i ffwrdd o ddeunyddiau fflamadwy megis cynfas pabell neu sgriniau.

Gosodwch eich offer fel nad oes modd i bobl anawdurdodedig dampro gydag ef.

I osgoi unrhyw danio anfwriadol.

Ydych chi'n gwneud yn siŵr fod pob offer arlwyyo yn cael ei osod i ffwrdd o ddeunyddiau fflamadwy bob amser?

Ydw Na


Awyriad

Os nad yw'r offer yn yr awyr agored, e.e. mewn pabell, marquees, cytiau, yna mae'n hanfodol sicrhau bod digon o awyriad sefydlog yn cael ei ddarparu.

Nid yw agoriad blaen marquee yn cael ei ystyried yn awyriad digonol. Rhaid darparu griliau sefydlog ar wahân ar waliau'r babell/marquee neu strwythur.

I atal carbon monocsid, sy'n nwy gwenwynig, rhag cronni.

Sut ydych chi'n gwneud yn siŵr bod digon o awyriad yn cael ei ddarparu?: -



Gweithdrefnau Brys

Rhaid i chi arddangos hysbysiadau ar beth i'w wneud mewn argyfwng, e.e. gollyngiadau nwy a thân.

Dylid arddangos hysbysiad diogelwch ar sut i gysylltu a datgysylltu poteli LPG drws nesaf i'r storfa poteli nwy.

Dylid arddangos arwyddion addas ar y botel: '*Caution LPG and Highly flammable*'.

I wneud yn siŵr fod pawb yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

I atgoffa staff sut i wneud hyn yn ddiogel.

Pa hysbysiadau ydych chi'n eu harddangos?



Gweithdrefnau Brys

Argymhellir cael gweithdrefn wedi'i dogfennu yn egluro beth i'w wneud mewn argyfwng gyda rhifau ffôn cyswllt defnyddiol.

Dylid gosod hysbysiad ar gyfer eich staff.



Pan fo cyflenwad propan swmp o fwy na 2 silindr gyda dyfais 'change over' manifold neu awtomatig yn cael ei ddefnyddio, dylid darparu 'shut off' argyfwng ar wahân yn y fewnfa i'r cyflenwad cyffredin.

Dylai'r holl staff arlwyyo sy'n defnyddio'r offer nwy gael hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio'n iawn a sut i wneud gwiriadau gweledol am ddiffygion amlwg.

PEIDIWCH â defnyddio fflam noeth wrth chwilio am ollyngiadau nwy.

Dylai diffoddwr tân 1 x 5kg powdr sych fod ar gael ar gyfer pob 2 silindr a ddefnyddir. Gosodwch eich diffoddwyr tân mewn lle amlwg.

Pan fo tân:

- Gweithredwch ar unwaith a ffoniwch y frigâd dân a dweud wrthynt bod LPG yn bresennol.
- Caewch bob falf ar y silindrau.
- Cadwch silindrau'n oer drwy ddefnyddio chwistrell dŵr os yw'n bosib.

I wneud yn siŵr fod yr holl staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng a'i bod i gyd yn gwybod sut i ddiffodd y cyflenwad nwy.

Bydd yr hysbysiad yn atgoffa staff beth i'w wneud mewn argyfwng.

I wneud yn siŵr y gallant sylwi ar unrhyw arwyddion o ddifrod a rhoi eich gweithdrefnau argyfwng ar waith.


Dylai staff wirio am yr isod bob dydd:

- Gwiriad gweledol o'r silindrau, pibellwaith, offer, ffliwiau a fentiau.
- Oes yna arogl nwy – mae arogl nodedig ar LPG.
- Gall rheu neu sgleinio fod yn arwydd o ollyngiad nwy.
- Gwiriwch y cysylltiadau am ollyngiadau gan ddefnyddio hylif dŵr sebon (bydd swigod i'w gweld os yw uniadau / pibellau yn gollwng).
- Oes unrhyw bibellwaith neu gysylltiadau wedi'u difrodi?
- Ydy'r offer wedi'u clymu'n ddiogel i'r cerbyd?
- Ydy'r offer wedi'i ddiffodd pan fo'r cerbyd yn symud a'r cyflenwad nwy wedi'i ddiffodd ar y silindr?
- Ydy ansawdd y fflam yn dda?

Beth yw eich gweithdrefn argyfwng pan fo gollyngiad nwy?

Pa hysbysiadau ydych chi'n eu harddangos?

Pa hyfforddiant ydych chi'n ei ddarparu i'ch staff?



Enghreifftiau o Dibenwaith

Rhaid i bibellau sy'n cario nwy o silindrau i'r rheoleiddwyr gael cysylltiadau ffatri wedi'u ddolennu. Gellir defnyddio clipiau jiwbil i'r rheoleiddwr i'r offer. Fodd bynnag, rhaid i'r clipiau fod yn esmwyth y tu mewn a pheidio â brathu clipiau jiwbil gyda dannedd gan y bydd yn gwneud tyllau yn y bibell ac fe allai ryddhau nwy. Rhaid osgoi ffasnin 'screw driven' gan y gellir cau'r rhain yn rhy dynn a difrodi'r pibellau.



cysylltiad ffatri wedi'i ddolennu



Rhaid i'r rheoleiddwr gael blwyddyn gynhyrchu a label BS3016 neu BSEN12864 arno

Clip Crimp



cysylltiad ffatri wedi'i ddolennu



wedi'i gau yn rhy dynn



Nid oes clip jiwbil yn cysylltu'r bibell hyblyg i'r rheoleiddwr gan wneud i'r nwy ddianc.

Rhaid i'r pibellwaith fod mewn cyflwr da. Gwiriwch y pibellwaith bob tro yr ydych yn ei ddefnyddio a'i newid yn syth os yw wedi'i ddifrodi. Rhaid defnyddio pibellau 'braided' neu 'armoured' os ydynt yn agored i dymereddau dros 50°C.



Mae'r bibell wedi cracio'n wael yn yr uniad ac mae'n debygol o ollwng nwy. Dylai un newydd gael ei gosod ar unwaith.



Mae gorchudd y bibell wedi gwisgo.



Dim clip jiwbil ar y cysylltiad rhwng y bibell hyblyg a'r 'double ring burner'. Mae'r nwy wedi adweithio â'r gwres o'r fflam ac wedi gwneud i'r bibell hyblyg losgi.



Mae nwy yn gollwng o'r bibell – mae modd cywasgu'r

bibell ac mae wedi lledu. Dylai fod yn gadarn a'r un lled drwyddi.

Engheifftiau o bibellwaith



Rhaid gosod poteli Nwy Propan yn yr awyr agored. Mae'r ffotograff isod yn dangos y poteli nwy wedi'u gwasgu mewn pabell ger rhewgell gist a phopty rhostio mochyn. Roedd poteli dŵr ac eitemau eraill wedi'u gosod ar dop y poteli nwy.



Ni ddylid cael tro yn y bibell a dylai fod o leiaf 1m i ffwrdd o unrhyw ffynhonnell fyddai'n gallu tanio.



Ni ddylai hyd y bibell hyblyg fod yn fwy na 1m o reolydd yr offer.



Peidiwch â storio offer neu ysbwriel ar ben neu ger silindrau nwy.

Cynllun o osodiad eich digwyddiad

Tynnwch lun o leoliad eich hoff offer gan gynnwys lleoliad y fynedfa/allanfa ac unrhyw fewnfa aer ychwanegol. Dangoswch leoliad eich poteli nwy a'ch diffoddwyr tân. Nodwch leoliad eich falffiau newid drosodd a'r Rheolaethau Argyfwng, os yn berthnasol.

